
## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis



**Ar Draws**

**1.** Caiff hon ei defnyddio i agor hollt (5)
**4.** Pentref yn ardal *Y Lloffwr* (4)
**7.** Nid twym (3)
**8.** Castell yn ardal *Y Lloffwr* (7)
**9.**Difrifol (5)
**11.** Bydd troell neu bryf copyn yn gwneud hyn (4)
**12.** Padarn neu Syfaddan (3)
**13.** Mae angen ceffyl neu ddwr i chwarae'r gêm hon (4)
**16.** Silff yn ymyl lle tân (6)
**18.** Tre'r sosban (6)
**20.** Blodyn melyn yw un y llew (4)
**21.** Nid mwy (3)
**22.** Arwrol (4)
**27.** "Y sawl a dynno nyth y frân,/Fe gaiff fynd i —— dân". (5)
**28.** Ceffyl neu lew (7)
**29.** "Nid — yw popeth melyn" - Dihareb (3)
**30.** Brawd Jacob (4)
**31.** Nid hen (5)

**I Lawr**

**1.** Digyffro (5)
**2.** Mynd yn fwy (4)
**3.** Bydd hon yn gweini (6)
**4.** Gall hon fod yn berthynol i'r cyngor neu incwm (4)
**5.** ——— Bebb: awdur Crwydro'r Cyfandir, Llydaw, Pererindodau (7)
**6.** Mae dwy gan aderyn ac awyren (4)
**10.** Amharodrwydd i weithio (5)
**14.** "— gwyn, man draw"- Dihareb (3)
15. Nid iach (3)
**16.** Yr hyn a wna ffrwyth wrth fynd yn ddrwg (5)
**17.** Plasty ger Aberystwyth sy'n gysylltiedig â chwpan nodedig (7)
**19.** Y Royal Oak yn Rhandir-mwyn neu'r Drovers yn Ffarmers (6)
**23.** Diadell (5)
**24.**Gweiddi *(4)*
**25.** Aeth y ddau ohonom ar gefn ceffyl dros y mynydd i hela'r rhain (4)
**26.** Bach a dibwys (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto. Atebion i gyrraedd yr Uwch Olygydd erbyn **20 Hydref**.

ENW: ..........................................................

CYFEIRIAD: ..................................................

FFÔN: ........................................................

**ENILLYDD CROESAIR GORFFENNAF :**
**Bethan Griffiths, Pantydderwen, Llanfynydd.**
**ATEBION**
**Ar Draws** 1. Enaid; 4. Gobi; 7. Llandeilo; 8. Nain; 9. Sant; 10. Penodol; 11. Pren; 12. Ebwy; 15. Mis Awst; 17. Taid; 20. Adar; 21. Arglwyddi; 22. Llyfr; 23. Danas
**I Lawr** 1. Evans; 2. Andante; 3. Dail; 4. Groser; 5. Bondo; 6. Timothy; 11. Priodi; 13. Branwen; 14. Esgair; 16. Aerwy; 18. Diddos; 19.Oged

## ~ DYDDIADUR ~

**Rhaid derbyn pob cyfraniad i'r dyddiadur erbyn yr 20fed o'r mis drwy e-bostio menter@sirgar.gov.uk, drwy ffonio (01558) 825336 neu drwy'r post i swyddfa Menter Bro Dinefwr**

***MEDI***

23 Theatr Bara Caws yn cyflwyno *Lysh* gan Aled Jones Williams (drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 2004 yn Theatr Elli, Llanelli i ddechrau am 7.30pm. Tocynnau ar gael ar (01554) 774057. (*Defnyddir iaith gref).

29 Cyrddau Diolchgarwch Bethel, Cwm Pedol am 2.00pm a 6.30pm. Pregethir gan y Parchedig D. Huw Roberts.

***HYDREF***

2 Cyngerdd gyda Chôr Rhuthun a'r Cylch a Bois y Castell yn y Capel Newydd, Llandeilo i ddechrau am 7.30pm. Tocynnau £6 a £4 ar gael gan aelodau'r côr. Elw tuag at Tŷ Hafan.

5 Cyfarfod Agored y Lloffwr yn Festri Capel Newydd, Llandeilo am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

6 Merched y Wawr, Pumsaint – Dwylo 'nghyd gan Llinos Davies, Llanddeusant am 7.30pm yn Neuadd y Coroniad.

17 Oedfa Ddiolchgarwch gyda Martyn Geraint (Planed Plant S4C) yn y Capel Newydd, Llandeilo am 3.30pm. Croeso cynnes i blant ac oedolion.

29 Darlith ar "Owain Glyndwr" yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers gan y Dr John Davies, Aberystwyth i ddechrau am 7.30pm.

30 Eisteddfod Gadeiriol Neuadd y Coroniad Pumsaint (50 mlynedd). Cystadleuthau lleol i ddechrau am 10.30am a chystadleuthau agored am 2.00pm. Manylion pellach gan Mair Williams ar (01558) 650292.
Cyngerdd Blynyddol Cor Meibion Dinefwr yng Nghapel Newydd Llandeilo. Artistiaid gwadd Lavina Thomas (contralto) a'r tri tenor : Robyn Lyn; Crwys Evans a John Davies gyda'u cyfeilydd Gareth Wyn Thomas. Mynediad - £6.
Elw tuag at Gymdeithas M.S. a Ty Hafan y plant.

***TACHWEDD***

12 Cyflwyniad o "*The Outing*" a "*Return Journey*" o waith Dylan Thomas yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7.30pm. Perfformir y ddwy ddrama gan "*Swansea Little Theatre*."

***RHAGFYR***

1 'Cracer' Nadolig – Adloniant, Bwyd a Blodau yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri. Noson yng Nghwmni Côr Rhianedd Rhys. Cysylltwch â Carol Davies am fwy o fanylion ar (01550) 720219.


# D. L. WILLIAMS
Iard Pant-yr-Esgair, Talyllychau, Llandeilo
*Masnachwr llechi a phob math o goed*
Bwyd anifieliaid Bibby
☎ (01558)685217*(dydd)* / 685722 *(nos)*

**COED DULAIS**
*Coed o bob math ar gael*
☎**(01558) 668409**
*Hau ar y sychin.*
*Plannu ar y gwlypin*

**CHECKPOINT**
☎
(01558)
650338
*'Tyres, Exhausts a Batteries'*
*Profion M.O.T*



# Y LLOFFWR

RHIF 258 PAPUR BRO CYLCH DINEFWR MEDI / HYDREF 2004 75c


**YN Y RHIFYN HWN...**
* Anrhydeddu Cyn-olygydd
* Cofio Gwyneth
* Pencampwr y Ddafad Gymreig
* Llecyn Llên
* Hwyl yn yr Ardd
* Newyddion Bro
a llawer mwy ... ...



## Llongyfarchiadau!!

Dydd Sadwrn, Medi 11, yn y Capel Newydd, Llandeilo, priodwyd Owain Siôn Gruffydd, mab Edward a Rhiannon Griffiths, Ffairfach, â Cerys Meleri Bowen, merch Hywel a Janet Bowen, Rhydaman. Fe'u priodwyd gan dad y priodfab, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rai o'u ffrindiau.

Darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan Ffion Meleri a darn o waith Tudur Dylan a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur, gan Owain Evans. Canwyd y gân Harbwr Diogel gan Sioned Mair Jones a chafwyd datganiad yn ystod arwyddo'r gofrestr gan Atsain. Gwyn Nicholas oedd yr organydd ac ef arweiniodd Atsain ar y dydd yn lle Owain gyda Gareth Wyn Thomas yn cyfeilio i'r côr ac i Sioned.

Cyfeiliwyd ymdeithgan y briodferch, sef Y Ferch o Sgêr, gan Nia Clwyd ar y delyn a Tim Williams ar y ffliwt. Y morwynion oedd Sionedwyn Bowen (chwaer Cerys) a Nia McVeigh (ffrind Cerys) a'r gweision priodas oedd Owain Evans a Jonathan Thomas (ffrindiau Owain). Y tywyswyr oedd Rhodri Gruffydd, Stephen Davies, Aled Gibbon a Llyr Huws Gruffydd.

Trefnwyd a gosodwyd y blodau yn gelfydd iawn gan Mrs. Gloria Davies, Llandybie.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty'r Ashburnham, Penbre. Daeth llu o berthnasau a ffrindiau ynghyd i ddathlu'r achlysur ac yn ystod y nos cafwyd adloniant arbennig gan 'Mynediad am Ddim' a 'Jac y Do.'

Rheolwr ardal gyda Menter Bro Dinefwr yw Owain. Ef yw cadeirydd presennol Cyngor Bro Dyffryn Cennen. Mae'n arweinydd côr merched Atsain ac yn un o organyddion Capel Newydd. Mae Cerys yn rheolwr gyda'r Prosiect Papurau Bro ac yn aelod ffyddlon o gôr Atsain.

Mae Owain a Cerys yn treulio'u mis mêl yn y Maldives. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol yn eu cartref newydd yn Llys-teg, Ffairfach.

## ~ GOLYGYDDOL ~

Unwaith eto dyma droi'n hwynebau tua'r hydref, ond â blas hwyl yr haf yn dal i felysu oriau y cysgodion estynedig. Ni welwyd poethder yr haf blaenorol, yn wir, i'r gwrthwyneb, cawsom Awst gyda'r mwyaf glawog mewn cof, gan ddwyn trallod i lawer ardal. Er hynny bu yn haf digon caredig i'n prif wyliau, ataliodd rhag gollwng ei ddilyw am yr ychydig ddyddiau i'w cynnal, gan wenu'n garedig ar adegau ar Wyliau Llangollen, Llanelwedd a Chasnewydd.

Mae Eisteddfod Llangollen bellach, wedi peth simsanu yn ystod yr wyth a'r naw degau, i'w gweld wedi cael ei thraed o dani ac yn cerdded yn hyderus i'r dyfodol, a'i gofiadau ariannol yn cilio. Gwarthus eleni oedd gweithred rhai o swyddogion twp y Llywodraeth yn Llundain yn rhwystro cantorion a dawnswyr o wledydd tramor oedd am ddod i gystadlu yn yr Eisteddfod, gan honni nad oeddynt wedi clywed erioed am Eisteddfod Llangollen, (Nac am Gymru am a wn i) er bod y rhan fwyaf o wledydd y byd yn gwybod amdani.

Cafodd eisteddfod y ffermwyr hefyd ffynnu dan heulwen yn Llanelwedd, a'i thyrfaoedd cynyddol yn dwyn gwên i wynebau ei threfnwyr. Gwelodd hon hefyd rai blynyddoedd ansicr pan oedd newydd ymsefydlu ar ei maes parhaol, ond erbyn hyn, wrth iddi ddathlu ei chanfed blwyddyn, fe dyfodd i fod yn sioe amaethyddol fwyaf llwyddiannus, yn Ewrop.

A llwyddodd yr Eisteddfod Genedlaethol i osgoi y dilyw a arllwysodd arni ddwy flynedd ynghynt yn Nhy Dewi, gyda'r haul yn ceisio dangos ei gefnogaeth o dro i dro. Dangosodd trigolion di-Gymraeg Sir Fynwy eu cefnogaeth hefyd, gyda rhai miloedd yn fwy yno eleni nag a welwyd pan fu yno yn 1988. Clywsom fynegi fod mwy o Saesneg i'w glywed ar Faes yr Eisteddfod hon nag erioed o'r blaen, a da o beth yw hynny, mae'n gyfle i fwyafrif di-Gymraeg y De i brofi peth o'r cyfoeth sydd gennym ni'r Cymry Cymraeg i'w gynnig. A bydd angen eu cefnogaeth a'u hewyllys da hwy ar yr Eisteddfod yn y dyfodol gyda'r gost o'i chynnal ar gynnydd o flwyddyn i flwyddyn, a dim awgrym o ffynhonnell newydd i'w hariannu yn wyneb cyndynrwydd ein llywodraeth. Ond mae'n sïwr y bydd pob cwmwl du yn diflannu pan fydd yn gosod ei phebyll ar Stad y Faenol ynghanol Cymreigrwydd brwd Eryri ymhen blwyddyn.

**T.M.T.**

## ~ Y GOLOFN GREFYDDOL ~

"Daeth hon ato o'r tu ôl a chyffwrdd ag ymyl ei fantell" (Luc 8:44). Gwraig ddi-enw yn cyffwrdd â gwisg y Crist. Gwraig mewn trafferthion yn dod i gysylltiad â'r Meddyg Mawr mewn ffordd annisgwyl. Pwy oedd hi? Cawn ni aros yn ei chwmni i wybod. Unwaith eto tri phen i'n helpu am y digwyddiad unigryw yma.

1. YR OEDD HON YN - NEB. Nid yw enw y wraig ar gael. Ond fe ddywed traddodiad mai ei henw oedd Veronica – yr un person a roddodd cadach poced i'r Iesu wrth iddo gario'i groes i Galfaria. Un peth sy'n sicr – un mewn tyrfa yw hi. Ond dyw hi'n hawdd ymgolli mewn tyrfa. Ac ma'lladron poced wrth eu bodd ynghanol tyrfa. Sawl rhybudd ydwyf i a chi wedi ei weld: "Beware of Pick-Pockets". Ga'i awgrymu fod y dyrfa ei hun yn lleidr. Y mae tyrfa yn llefaru yn ein lle ni heb ganiatâd. Tuedd y dyrfa yw ein harwain ni heb inni sylweddoli hynny. Gwyliwn y dyrfa! Gwraig â phroblem ganddi sydd yma – a neb yn malio dim amdani. Un fu'n dioddef ac yn colli gwaed ers deuddeng mlynedd – ond beth yw hynny i bobl y dyrfa? Gwraig dlawd yw hi bellach: "Er iddi wario ar feddygon y cwbl oedd ganddi i fyw arno….. (adnod 44) – ond beth yw hyn i'r dyrfa? NEB yw hi iddyn nhw. Ei harian wedi mynd a phob meddyg wedi methu â rhoi iachad iddi. Ond clywodd y wraig fod y Meddyg Mawr wedi dod yn ôl i Galilea, a dyma ni'n darllen: "Os cyffyrddaf a'i ddillad ef……iach fyddaf". Gwyddai o'r gorau mai "ffydd" oedd ei "Fee" ef. Ac mae'n llwyddo i wneud hynny. "Ar unwaith peidiodd llif ei gwaed hi". Ac o'r foment honno nid Neb oedd y wraig ond Rhywun.

2. YR OEDD HON YN – RHYWUN. Wedi'r wraig gyffwrdd ac ymyl gwisg yr Iesu, dyma gwestiwn i'r disgyblion: "Pwy a gyffyrddodd a'm dillad?" Cwestiwn od ac yntau ynghanol tyrfa. Ond daliodd yr Iesu i ddweud "Rhywun a gyffyrddodd â mi". Rwyf i a chi yn rhywun yng ngolwg Iesu Grist. A dyna yn union a wna'r Meddyg Mawr i'r sawl â ddaw eto mewn ffydd gan geisio iachad. Ma' pob un yn hoffi cael ei gyfrif yn rhywun. Nid yw neb yn neb gan y Gwaredwr. Mae'n rhoi sylw a phwyslais ar yr un…. Aderyn y tô… y ddafad golledig… y mab afradlon… neu y wraig anghenus hon mewn tyrfa. Ac i gloi.

3. YR OEDD HON YN – RHYWUN ARBENNIG. Wedi'r cyffwrdd… yr iachad…. a'r gyffes meddai'r Iesu: "Fy merch, dy ffydd sydd wedi dy iachau di; dos mewn tangnefedd". A dyma hi yn awr wedi ei dyrchafu i deulu annwyl yr Iesu, teulu'r ffydd.

Parch Lynn Evans

## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

**Cadeirydd**
Parch Alma Roberts
Rhiw'r Dorth, Llandeilo
☎ (01558) 823272

**Uwch Olygydd**
J. Mansel Charles
Sarn Gelli,
Llanegwad, Nantgaredig,
Caerfyrddin, SA32 7NL
☎ (01558) 668823
☎ (07970) 031888
✉ menter@sirgar.gov.uk

**Ysgrifennydd**
Rhian Morgan
Crossville, Llangadog
☎ (01550) 777107

**Trysorydd**
Owain Siôn Gruffydd
☎ (01558) 825336

**Swyddog Derbyn Taliadau**
Fiona Walters
Banc Barclays, Llandeilo

**Swyddog Hysbysebion**
Wyn Williams
☎ (01550) 777834

**Swyddog Gwerthiant**
Bob Roberts
☎ (01792) 881891

**Swyddog Tanysgrifio**
Eleri Jones
☎ (01558) 822353

**Trefnwyr Dosbarthu**
Gwenlais Price
☎ (01550) 720114
Glyn a Rowena Davies
☎ (01558) 823340

**Bwrdd Rheoli**
Owain Siôn Gruffydd
Cerys Gruffydd
J. Mansel Charles
David Dyer
Peter Harries
Eleri Jones
Rhian Morgan
Robin Owen
Alma Roberts
Bob Roberts
Fiona Walters
Wyn Williams

**Bwrdd Golygyddol**
J. Mansel Charles
Cerys Gruffydd
Eleri Davies
Glenys Davies
Lynwen Davies
Siân Davies
W. Dyfrig Davies
Lynn Evans
Owain Siôn Gruffydd
Elin Humphreys
Gareth Vaughan Jones
Hywel Jones
Mererid Vaughan Jones
Christine Jones
Iona Llyr
Gwenda Rees
Len Richards
Alma Roberts
T. M. Thomas

**Golygyddion y Rhifyn Hwn**
T.M.Thomas, Llanwrda

**Golygydd y Rhifyn Nesaf**
Eleri Davies, Salem

**Teipio a Chysodi**
Menter Bro Dinefwr

**Argraffu**
Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

**SWYDDOGION PROSIECT PAPURAU BRO**
**☎ (01558) 825336**
Cerys Gruffydd, Rheolwr
Aled Vaughan, Golygydd Hamdden ac Anabledd
Heledd ap Gwynfor, Golygydd Merched ac Ieuenctid
Annwen Jones, Swyddog Cynorthwyol
Alison Williams, Swyddog Marchnata

Mansel Charles (Y Lloffwr), Cadeirydd
Marina Davies (Y Garthen), Is-gadeirydd
~~~

**DYDDIAD CAU**
**Rhaid i ddeunydd *Lloffwr* mis Tachwedd fod yn nwylo'r Uwch Olygydd erbyn 20 Hydref**
**RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG**
Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl
**menter@sirgar.gov.uk**

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur



# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Y Gragen,
Llandeilo,

Annwyl ffrindiau,


Ydy hi'n braf i fod nôl yn yr ysgol? Gobeithio nad yw 'r athrawon yn eich gweithio chi'n rhy galed! Rydym ni falwod yn greaduriaid hamddenol iawn, felly ym mis Hydref fydda i nôl yn fy ysgol i. Ymarfer corff yw fy hoff bwnc. Fi yw ymlusgwr gorau'r dosbarth!

Mwynhewch!



Mal x


**SAWL PAR O GREADURIAID ALLWCH WELD YN Y LLUN?**






ENNILLYDD GWOBR Y MIS HWN YW ANNIKA DAVIES, TREFWRI, RHOSMAEN. DA IAWN TI!!!

**LLIWICH SIANI'R GATH**






Rhowch gylch o gwmpas yr anifeiliaid sy'n byw ar y tir.



Bydd gwobr eto y mis hwn i'r ymgais orau i liwio'r llun uchod

Anfonwch eich cynigion i:
**Y Gilfach, Heol Latimer, Llandeilo**
erbyn 20 Hydref 2004
~~~

## UN DIWRNOD YN YR EISTEDDFOD

Mae'n siŵr taw un o'r cyfansoddiadau mwyaf gwerthfawr a gynhyrchodd adran lenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd eleni oedd y nofel a enillodd Wobr Goffa Daniel Owen i Robin Llywelyn. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ef i ennill un o brif wobrau llenyddol y Genedlaethol, enillodd ef y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Aberystwyth yn 1992 am ei nofel 'Seren Wen ar Gefndir Gwyn', a'i hennill yr eilwaith yn Eisteddfod Catell Nedd yn 1994 am y nofel 'O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn'. Nid oes amheuaeth nad yw Robin Llywelyn, sy'n Rheolwr Cwmni Portmeirion, yn lais unigryw ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Mae'n siŵr y bydd ei waith yn dylanwadu ar waith llenorion eraill, ac efallai ar chwaeth darllenwyr yn yr iaith Gymraeg.

Mae nofel fuddugol Robin Llywelyn yn wahanol iawn i'w ddwy nofel fuddugol flaenorol lle mae 'Seren Wen ar Gefndir Gwyn' yn mynd a ni i fyd ffantasi mewn rhyw ddyfodol amhenodol, a 'O'r Harbwr Gwag i'r cefnfor Gwyn' yn ein dwyn i fyd gwleidyddiaeth a mytholeg. Yn y nofel newydd hon 'Un diwrnod yn yr Eisteddfod' cawn stori afaelgar, rwydd i'w dilyn, a fydd yn sïwr o apelio at y darllenwr cyffredin Cymraeg sy'n disgwyl am nofel i'w mwynhau yn hamddenol. Eto, fel ymhob nofel dda, mae ynddi fwy na stori.

Nofel sy'n cwmpasu pedair awr a'r hugain ym mywyd gŵr sy'n dwyn yr enw 'Wil Chips' yw hon. Milwr tua'r canol oed cynnar ydw, sydd newydd ddychwelyd i Gymru wedi profiad annymunol yn y rhyfel yn Irac. Caiff fod ei wraig wedi ei adael tra bu i ffwrdd gan ffoi i Glasgow gyda'u plant. Mae'r stori'n agor gyda Wil yn cael ei hun ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol (heb dalu). Dilynwn ef yn crwydro'n anwybodus a doniol o amgylch pebyll y Maes. Mae yn cwrdd hen ffrindiau o'i ddyddiau ysgol, un ohonynt yn un o bwysigion yr Eisteddfod. Mae yn llwyddo i feddwi ar y Maes, a chawn ef yn dadlau gyda gweinyddion yr Efengyl ym mhabell Cytun. Glania ar lwyfan yr Eisteddfod adeg y Cadeirio, a syrthia mewn cariad. Ond mae ei ddicter am dwyll ei wraig a'i benderfyniad i gael ei blant 'nol yn dod o hyd i'r wyneb.

A thrwy y stori fe welir pynciau fel dyfodol yr Eisteddfod, y mewnlifiad i'r broydd Cymraeg a difaterwch y Cynulliad, alcohol ar Faes yr Eisteddfod a hyd yn oed ddiwedd y byd yn cael eu gwyntyllu. Dyma nofel y bydd blas ar ei ddarllen, ac am lai na phris cinio Dydd Sul cewch oriau o fwynhad a dyddiau o gnoi cul.

T.M.T.

*Mae'n wir mewn bedd mae llawer gŵr*
*Am fod ei sgidiau'n gollwng dŵr.*
ESGIDIAU GWERTH EU GWISGO
SYDD HEFYD WRTH EU TRWSIO
*gan:*
**D. T. EDWARDS A'I FAB**
**(01550) 777459**



**W.D. LEWIS a'i Fab**
MASNACHWYR AMAETHYDDOL
Cangen Pumsaint, Broneb Stores, Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin. ☎(01558) 650215



...DDAU AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH A NI.
Am fusnes cyfeillgar, teuluol, profiadol yn y byd amaethyddol, heb os, i'ch stoc cewch fwydydd maethlon yn W.D. a sylw prydlon.

## www.floatingoverwales.com

Ydych chi'n chwilio am anrheg arbennig i rhywun ... neu i'ch hunan?! Beth am anrheg pen-blwydd hudol neu anrheg priodas rhamantus? Dyma eich ateb ... taith arbennig mewn balŵn dros dirwedd hyfryd Sir Gâr. David a Heather Smith sy'n rhedeg cwmni **Floating Over Wales** o'u cartref ar Fferm Birdhill ger Llandeilo. Gall hyd at chwech o bobol fynd ar daith ar yr un pryd ac mae pob siwrne yn parhau am rhyw awr. Y gost yw £120 y person neu £115 yr un os oes dau ohonoch chi. Mae disgownt pellach i grwpiau mwy. **Wyddoch chi ...?** Mae pobol wedi bod yn hedfan mewn balu´n ers dros 200 mlyneddMae tua 884.52 o fetrau sgwâr o ddefnydd yn mynd i wneud y balu´n ei hunanNwy propane a ddefnyddir i danio'r balu´nAm fanylion pellach, cysylltwch â **Floating Over Wales** ar 01558 823983 neu ewch i'r wefan enquiries@floatingoverwales.com.




**ENILLWCH DAITH MEWN BALŴN!**Dyma gyfle arbennig i ennill taith anhygoel i ddau mewn balŵn gyda **Floating Over Wales**. Mae'r wobr werth £230 a cewch fynd ar eich taith unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn nesaf. Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw ateb y cwestiwn isod. **Faint o fetrau o ddefnydd sy'n mynd i wneud balŵn?**

Ateb:

**Enw:**...........................................................................

**Cyfeiriad:**.....................................................................

**Rhif ffon:** .......................................................

Anfonwch eich ateb a'ch manylion personol ar y tocyn hwn at:Alison Williams, Swyddog Marchnata Prosiect Papurau Bro,Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6HW. DYDDIAD CAU: Dydd Mercher, 20 Hydref. Ni dderbynnir tocynnau wedi eu llungopïo**Trefnir y gystadleuaeth gan Prosiect Papurau Bro ar y cyd rhwng Clebran, Y Lloffwr, Y Garthen, Y Cardi Bach a Cwlwm**

**JAMES JONES**
**PRESWYLFA, NANTGAREDIG**
*Prif asiant:*
**PHILIPS & PYE** Teledu, Fideo a Sustemau Hi-Fi
**HOTPOINT** Peiriannau golchi a sychu, Oergelloedd a Rhewgelloedd
RHENTU A GWERTHU SUSTEMAU LLOEREN
☎(01267) 290573



## LLWYDDIANT ATSAIN



Erys ddydd Iau, 5 Awst yn y cof am flynyddoedd i ddod fel un o uchafbwyntiau Haf 2004. Dyma'r diwrnod yr aeth llond bws o aelodau petrusgar Côr Merched Atsain, Llandeilo (gwelir rhai ohonynt yn y llun) ar y daith hir i Gasnewydd i gystadlu yn y gystadleuaeth i gorau merched yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Wedi cyrraedd y ddinas, aethpwyd yn syth i Gapel Mynydd Seion, Hillside i gael ymarfer byr, cyn symud ymlaen i fwrlwm y maes, cofrestru, siarad â'r ymchwilwyr teledu a gosod ein dillad (newydd!) yn yr unig ystafell wâg oedd ar ôl, cyn cael ein heidio i ffwrdd i gael cyfweliad ar gyfer S4C digidol gyda Shân Cothi. Yna, mewn dim o amser roeddem ar y llwyfan ar un o ddiwrnodau poetha'r Haf –ac Owain ein arweinydd yn ein siarsio i "fwynhau'r" profiad!

Digwyddodd rhywbeth hudol ar y llwyfan y diwrnod hwnnw – roedd pob un ohonom yn benderfynol i roi o'n gorau ac aeth hyd yn oed y darn gosod llafurus (Salm 23, Schubert) yn rhyfeddol o dda! Daeth pawb o'r llwyfan yn hapus â'r perfformiad ond anodd oedd gwybod beth i'w ddisgwyl gyda saith o gorau safonol iawn yn y gystadleuaeth.

Wrth i'r feirniadaeth nesáu, roedd sibrydion cadarnhaol yn dechrau ein cyrraedd gan rai oedd yn 'gwybod eu stwff' ond ni feiddiwyd codi gobeithion. Pan ddechreuodd y beirniad Gwyn L. Williams draddodi'r feirniadaeth roedd hi'n amlwg ein bod wedi plesio ond roedd hi'n foment a hanner pan gyhoeddwyd ein bod wedi dod yn ail gyda Chôr Merched Canna, Caerdydd yn gyntaf a Chôr Cofnod, Caernarfon yn drydydd. Ffrwydrodd cefn y pafiliwn wrth i ni glywed y newyddion da a bu'n rhaid i'r beirniad, druan gymryd saib go hir cyn cyhoeddi enw'r buddugo! Allech chi dyngu ein bod wedi ennill y Loteri!

Ni fyddai'r llwyddiant wedi dod i'n rhan heblaw am ymroddiad aelodau'r côr ond yn bennaf rhaid diolch o galon i Owain Gruffydd ein arweinydd amyneddgar ac egniol am ei holl waith trylwyr yn ein paratoi ac i'r cyfeilyddion Rhiannon Griffiths a Gareth Wyn Thomas am roi o'u hamser i'n cynorthwyo. Diolch hefyd i nifer o bobl leol am ddod i'n cefnogi yn y pafiliwn. Roedd hi'n braf clywed eich cefnogaeth wrth adael y llwyfan! Oedd, roedd 5 Awst yn un o ddiwrnodau brafia'r Haf ym mhob ystyr.

MVJ

## ANRHYDEDDU CYN-OLYGYDD Y LLOFFWR



Ein llongyfarchiadau i Handel Jones o Randirmwyn ar gael ei anrhydeddu fel Newyddiadurwr Amaethyddol y Flwyddyn yn ystod sioe y 'Royal Welsh' yn Llanelwedd. Mae'r anrhydedd hon yn cael ei noddi gan Undeb Amaethwyr Cymru, a'i chyflwyno am wasanaeth arbennig i gefn gwlad. Mewn seremoni yn ystod y sioe ym mhafiliwn Undeb Amaethwyr Cymru, cyflwynwyd ffon fugail wedi ei hysgrifennu iddo gan Mr Gareth Vaughan, Llywydd yr Undeb. Bu Handel Jones am gyfnod yn olygydd 'Y Lloffwr', a chyfrannodd yn gyson at ei gynnwys wedi hynny. Ychydig flynyddoedd yn ôl aeth ati i roi ynghyd ddetholiad allan o gynnwys y Lloffwr o'i ddyddiau cynnar, a'u cyhoeddi yn llyfryn i ddathlu unfed flwyddyn a'r ugain cyhoeddi'r Lloffwr.

Brodor o Gwmwysg yw Handel, ac ar hyn o bryd yn cyfuno ffermio ei dyddyn Pont-llech-ddu yn Rhandirmwyn gyda'i waith newyddiadurol. Dechreuodd ei yrfa gyda'r 'Carmarthen Times' cyn symud at y B.B.C. yng Nghaerdydd. Wedi symud nôl i gefn gwlad yn Rhandirmwyn gyda'i wraig Sheila a'r meibion Huw ac Aled dechreuodd arbenigo mewn newyddiaduriaeth amaethyddol, a bu'n cyfrannu i nifer o gylchgronnau ynghyd a darlledu o dro i dro. Yn 1994 cyhoeddodd 'Teulu'r Tir', sef cyfrol o 320 tudalen yn dilyn hanes cychwyn Undeb Amaethwyr Cymru yn 1956 yng Nghaerfyrddin, a'i brwydr i ennill ei le a'i sefydlu yn un o'r prif gyrff sy'n cynrychioli ffermwyr Cymru heddiw.

Mae'r anrhydedd hon yn deyrnged haeddiannol i ŵr a roddodd tua deugain mlynedd o wasanaeth i gefn gwlad Cymru.

## PENCAMPWR Y DEFAID

Un o fridwyr defaid mwyaf llwyddiannus ein bro yw Euros Jones, Brynbach, Dryslwyn. Yn enedigol o Gwynfe cafodd y profiad o arddangos defaid gyda'i dad o'i ddyddiau cynnar. Mae ei brif ddiddordeb yn y Ddafad Gymreig bedigri, a bu yn hynod o lwyddiannus gyda hwy ers iddo ddechrau arddangos ei ddefaid ei hun tua phum mlynedd 'nol. Mae Euros Jones yn cadw tua chant o Ddefaid Cymreig ym Mrynbach, a gwelwyd hwy yn weddol gyson yn ddiweddar mewn sioeau bach a mawr, ac yn fynych ar y brig yn y gystadleuaeth. Enillodd ef Bencampwriaeth y brid Cymreig yn y Sioe Frenhinol yr haf hwn ar ôl cyflawni'r un gamp flwyddyn yn ôl. Bu yr un mor llwyddiannus hefyd mewn cystadleuthau rhwng gwahanol fridiau. Yn ddiweddar gwerthodd hwrdd o'i Ddefaid Cymreig am y pris uchaf erioed yn hanes y brid. Milfeddyg yw Euros Jones yn gweithio gyda cwmni Percy & Jones yn Llandeilo. Mae ganddo ef a'i briod Meryl ferch fach wyth mis, Lowri.



## CAIO

**Trip**

I Ganolfan Treftadaeth y Rhondda ger Pontypridd aeth trip y pentref y flwyddyn hon. Ar 11 Awst cafwyd diwrnod diddorol dros ben yn dilyn hanes y glowyr, a myfyrio uwchben trafferthion a chaledi bywyd o dan ddaear. Uchafbwynt yr ymweliad i'r plant oedd y te yn yr awyr agored yn y Parc cyn symud ymlaen i dreulio gweddill y dydd ym Mhorthcawl. Er nad oedd y tywydd ar ei orau, cafwyd llawer o ddifyrrwch ar y traeth ac yn y ffair a phawb wedi mwynhau. Diolch i Rosina Davies a Michelle Johnston am wneud y trefniadau, ac i Bwyllgor y Mabolgampau am gyfrannu at y gost.



**Mabolgampau**



Cynhaliwyd mabolgampau a the blynyddol y pentref ar gae'r ysgol ar y trydydd o Orffennaf, o dan lywyddiaeth Mrs Gwenda Harries, Bryndeilo, hen ddisgybl o Ysgol Caio. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd rhoddion i ddau o swyddogion y pwyllgor oedd yn ymddeol. Ar ran y pwyllgor cyflwynodd y cadeirydd Mr Eifion Evans tusw o flodau a Thocyn Planhigfa i Mrs Eirlys Jones am roi 24 o flynyddoedd o wasanaeth fel trysorydd, a photel o wîn a Thocyn Llyfr i Mr Frank Gallatley am roi deunaw o flynyddoedd o wasanaeth fel ysgrifennydd. Terfynwyd y dydd gyda barbeciw yn y Brunant Arms.

**Moduro**

Bu swn moduro yn drwm drwy'r ardal ym mis Gorffennaf. Ar y degfed o'r mis daeth Rali Geir Quinton i'r ardal a gwelwyd tua dau gant o geir yn rhuthro drwy'r pentref. Yna ar 25 Gorffennaf bu cystadleuaeth beiciau ar gae Tynwaun.

## CWM-DU

**Ffair Haf**

Bu'r Ffair Haf flynyddol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin dan nawdd Cymdeithas Cwm-du yn llwyddiant mawr eleni eto er gwaetha'r tywydd ar ffafriol. Edrychai Cae Cwm yn lliwgar gyda'r stondinau amrywiol â'u cynnwys yn denu chwilfrydedd pawb a oedd yn bresennol.

Cludwyd pobl o'r maes parcio i lawr i'r pentref gan Myrddin Jones mewn bws hynafol a chafwyd modd i fyw wrth flasu'r byrgers, y cŵn poeth, mefus a hufen ar ôl prynu planhignion, gwin cartref, llyfrau, hen offer a chynnyrch aromatherapy.

Cafwyd cyfle i chwarae coits dan gyfarwyddyd Eric Jones, gwylio, Eddie Thomas, y twrnwr coed a chael te yn y bwyty. Profodd stondin Cymdeithas Hanes Talyllychau yn boblogaidd a denodd y ceir a'r tractorau o dras sylw nifer o bobl hefyd gydag arddangosfa wych o gerbydau. Bu rasys o bob math ar gyfer y plant a gêm bêl-droed i blant ac oedolion; peintio wynebau a rasys cwn gyda 'Jessie ci Linda Court yn fuddugol. Cafwyd cystadlaethau garddwriaeth ar gyfer y plant a dyma rai o'r canlyniadau:-

Gosod blodau gwyllt – Catherine Richards
Y letys gorau – Alice a Molly Jones, Trap

Carai pwyllgor Cymdeithas Cwm-du ddiolch i'r holl noddwyr a phawb am gefnogi'r achlysur ac am eu cyfraniadau hael yn ystod y dydd at Gymdeithas Motor Neurone ac apel cloch yr eglwys.

**Cymanfa**

Bydd Cymanfa Ganu Undebol Dyffryn Cothi eleni yn cael ei gynnal dydd Sul 3 Hydref yng Nghapel Ffaldybrenin o dan arweinyddiaeth Mr Berwyn Jenkins o Gaerfyrddin. Bydd Mrs Nita Roberts yn llywyddu Oedfa'r Plant yn y prynhawn am

**Cyngerdd Capel Province**

Pleser yw cyhoeddi mai'r swm terfynol a godwyd yng nghyngerdd blynyddol capel Province oedd £1017. Cefnogwyd apel Hannah Sams ar gyfer ymchwil o achos y clefyd Chrone a gwahoddwyd Hannah a'i mam i gapel Providence i dderbyn y siec gan y gweinidog, Parch Ddr Gwynne Parry.

**Cyflawni Gorchest**

Bu taith un bachgen ifanc lleol, sef Rhodri Williams i westy'r Savoy yn Llundain o ddiddordeb arbennig i drigolion yn ardal. Yn dilyn llwyddiant cenedlaethol tîm Menter yr Ifanc Blwyddyn 12, Ysgol Tregib, gyda'u CD Rom yn seiliedig ar y bardd Dylan Thomas, y cam nesaf oedd teithio i Lundain i gystadlu yn y rownd derfynol yn erbyn ysgolion eraill o Brydain.

Gyda gwefr y clywsom y newyddion da ddydd Mawrth, 13 Gorffennaf mai tîm Ysgol Tregib oedd yn fuddugol. Ac mai nhw oedd pencampwyr Prydain. Llongyfarchiadau calonog i Rhodri o fferm Glanyrafondduganol sy'n aelod o'r tîm ar y llwyddiant arbennig hwn a phleser oedd ei weld ar raglen 'Breakfast' y bore canlynol mewn cyfweliad ar y teledu. Holwyd ef am ei ddiddordeb mewn busnes a soniodd am ei awydd isefydlu ei gwmni ei hun ryw ddiwrnod.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Rhodri a fydd yn teithio gyda'r tîm i Ynys Malta i gystadlu yn erbyn tîmau o Ewrop, pob llwyddiant i holl aelodau'r tîm.

**Taith i Batagonia**



Cafwyd pryd hyfryd o fwyd gyda'r hwyr yn nhafarn Cwm-du yn ddiweddar. Trefnwyd y noson a'i gweithgareddau gan Hywel Jones a rhai o'r criw sy'n bwriadu mynd ar daith i'r Wladfa ym mis Hydref eleni.



***Côr Rhuthun***



Mae cryn ddisgwyl am ymweliad Côr Rhuthun a'r Cylch gyda Llandeilo ar Nos Sadwrn 2 Hydref. Fe fyddan nhw yn perfformio mewn Cyngerdd gyda Bois y Castell yn y Capel Newydd Llandeilo. Mae holl elw'r noson yn mynd tuag at Ty Hafan. Eisoes mae'r tocynnau yn gwerthu'n dda ond mae rhai ar gael drwy law aelodau Bois y Castell. Mae sawl cysylltiad rhwng y ddau gôr – yn ffrindiau a pherthnasau. Ystyrir côr Rhuthun yn un o gôrau cymysg mwyaf llwyddiannus Cymru. Dyma gyngerdd werth ei gefnogi.

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

Newyddion da - mae canolfan ailgylchu newydd wedi agor ar safle Gwesty'r Railway, Nantgaredig lle gellir ailgylchu'r canlynol a**lwminiwm a dur** (caniau bwyd a diod ac erosolau – gofalwch eu bod yn wag a thynnwch unrhyw orchuddion plastig); **poteli a jariau gwydr** (dim *pyrex*, gwydrau yfed na gwydr ffenestri); p**apurau newydd a chylchgronau** – a phost diangen a chatalogau.

Da chi cefnogwch y cyfleuster hwn - mae ailgylchu'n bwysig. Mae'n arbed ynni a lle prin mewn safleoedd claddu sbwriel. Mae'n fodd i ddiogelu'r amgylchedd i'r cenedlaethau i ddod. Diolch yn fawr i berchennog y Gwesty'r Rheilffordd am roi caniatâd ar gyfer y cyfleuster hwn. Wyddech chi fod y Cyngor yn cynnig cynlluniau i arbed gwastraff? I gael mwy o wybodaeth am gewynnau cotwm neu finiau compost am bris gostyngol ffoniwch (01267) 224393.

**Cynllun Interreg y Gymuned Ewropeaidd**

Bydd Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn arwain tîm o ieithyddion ac arbenigwyr cyfrifiadurol blaenllaw o Gymru ac Iwerddon i sicrhau bod adnoddau digidol o'r radd flaenaf ar gael i ystod eang o ddefnyddwyr a chymunedau o fewn ardaloedd Interreg yng ngorllwin Cymru a dwyrain Iwerddon.

Bwriedir i'r cynllun gwaith estyn dros ddwy flynedd a hanner a dyma'r cymorthdal mwyaf erioed i'w hennill o'r gronfa arbennig hon. Dywedodd yr Athro David Thorne a fydd yn arwain y cynllun, fod hyn yn dangos ffydd y gymuned ddigidol yn ansawdd y gwaith ieithyddol a chyfrifiadurol blaengar sydd wedi ei ddatblygu yn Llambed. Gwerth y grant a ddyfarnwyd i'r cynllun yw £1miliwn a bwriedir cychwyn ar y gwaith yn ystod mis Medi eleni.

**RHEDEG DROS 'MIND'**
**Digwyddiadau Rhedeg 2004**

Mae'r elusen iechyd meddwl **MIND** yn galw ar bawb sy'n berchen ar bâr o sgidiau rhedeg i redeg, loncian neu gerdded i godi arian allweddol ar gyfer pobol gyda phroblemau iechyd meddyliol. Gall rhedwyr ddewis cymryd rhan mewn un, neu holl ddigwyddiadau rhedeg yr elesen dros Brydain, yn ogystal â'u digwyddiad rhedeg rhyngwladol cyntaf - Marathon Dulyn. Mae dwy ffordd i fod yn rhan o'r digwyddiadau - naill ai cystadlu fel unigolyn a rhedeg dros **MIND**, neu geisio am un o lefydd sicr yr elusen mewn unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol:

**26 Medi 2004** - Y *Great North Run*

**10 Hydref 2004** - Y *Great South Run*

**4 Hydref 2004** - Marathon Dulyn

Os nad oes modd i chi gymryd rhan yn un o'r digwyddiadau uchod, mae **MIND** yn cynnig y cyfle i chi wneud eich peth eich hunan a chymryd rhan mewn digwyddiadau rhedeg eraill, gan gynnwys un yng Nghaerdydd. Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch 0870 012 9001 neu fynd i'w gwefan www.mind.org.uk/events. I ymuno â'r tîm rhedeg e-bostiwch yr elusen ar running@mind.org.uk.


**SIOP Y CENNEN**

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman

*am eich*

LLYFRAU * CRYNODDISGIAU * CARDIAU

CREFFTAU * FIDEOS * C.D.ROMau * CASETIAU

***Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau***

☎ (01269) 595777 hywelwyn@aol.com

# ~ HWYL YN YR ARDD gyda Hywel Jones~

## WNIWN

**(Ei enw botanegol yw Allium Cepa)**

Yn draddodiadol,mae mis Medi yn gyfnod pan fydd angen paratoi'r winiwns ar gyfer eu storio dros y gaeaf. Ers talwm r'oedd yn arferiad gan arddwyr i raffio'r rhain yn daclus a'u hongian i fyny. Erys atgof am yr hen Sioni Wniwns ***(le Johnnie yn y Lydaweg)*** yn ymweld a Chymru gyda stor o wniwns, ac aros ar ambell fferm am rai wythnosau. Byddent yn rhaffio'r winiwns ac yna gosod rhai ar "handle bars" ei feic (gweler darlun) a theithio ar hyd yr ardal i'w gwerthu Gan fod geiriau' Llydaweg yn hynod debyg i eiriau Cymraeg nid oedd hi'n anodd iddo ef a'r Cymry ddeall eu gilydd. R'oedd bob amser yn barod i fargenio ac unrhyw un,a'i ddadl yn aml oedd bod " dim lot o winiwns leni achos dim digon o law" Pwy allai ddadleu ag ef gan na wyddai'r Cymry sut oedd y sefyllfa mewn gwirionedd.-tipyn o "sales talk" oedd ei fwriad Rhaid cyfaddef bod Cymry'n dlotach o golli cymeriadau fel Sioni.


Credai hynafgwyr mai arwydd o aeaf caled oedd cael nifer fawr o haenau yng ngyfansoddiad yr winiwns. Ateb i ddiffyg gwallt, a pheri iddo ail-dyfu ar ben moel, oedd rhwbio sudd winiwns i mewn i'r croen ac yna sefyll allan yn yr heulwen am ddwy awr. Credir ,erbyn hyn bod bwyta wniwn bob dydd yn llesol ar gyfer clefyd y galon,yn medru gostwng lefel 'cholestrol' yn y gwaed, a gostwng lefel siwgr yn y gwaed mewn achos o glefyd y siwgr (diabetes).

Llysieuyn hawdd ei dyfu yw'r winiwns, ac y mae'n storio'n dda dros y gaeaf. Gyda rhai llysiau mae'n well newid eu safle yn flynyddol ond, gellir tyfu'r winiwns yn yr un man am tua pum mlynedd. Fe gymer tuag ugain wythnos i winiwns o "sets" ac winiwns o had, 24 wythnos I fod yn barod i'w tynnu. I sicrhau winiwns o safon, dylid hau mewn pridd moethus, ysgafn, wedi ei balu'n weddol ddwfn, tua chwe' wythnos ymlaen llaw.a hynny mewn llecyn heulog. Rhaid ychwanegu digon o fater organic,hen dail fferm wedi pydru ,ac yna 150gram o Vitax Q4 a lludw esgyrn am bob mydr sgwar. Gyda wniwn "sets, dylid eu plannu ganol mis Mawrth,ond gyda winiwns had gellir eu plannu mewn compost potio adeg y Nadolig ac wniwn Siapaniaidd ganol mis Awst.

Dylid plannu planhigion winiwns dyfwyd o had, ar ddiwrnod sych tua canol mis Mawrth, mewn pridd llaith ond heb fod yn llawn dwr. Un tip bach ,os bydd y pridd yn glynu wrth yr esgid ,mae'n arwydd fod y pridd yn rhy wlyb ar gyfer y plannu,felly dylid gohirio am ychydig. Dylid plannu'r planhigion tua 30cm ar wahan mewn rhych 2cm o ddyfnder,gan blannu "sets"yn yr un dull,ond gofalu fod top y "set"braidd yn y golwg.Ni ddylid gwthio'r set i lawr i'r ddaear ,rhag ofn i hyn beri i'r "set" folltio o'r ddaear i fod yn bryd o fwyd parod i'r bioden .Dylid plannu winiwns Siapaniaidd yn yr un dull, tua canol mis Awst.

Rhaid cadw gwely'r winiwns bob amser yn llaith,os yn dymor sych Mae'n holl bwysig i'r gwely fod yn lan ,ac yn rhydd o chwyn bob amser,er mwyn diogelu rhag ymosodiad gan y chwilen winiwns (onion fly) . Pan fydd gwyrddni'r planhigion yn dechrau melynu a throi yn frown, mae'n amser codi'r winiwns yn ofalus gan ddefnyddio fforc .Os bydd yn adeg heulog, gellir eu sychu a'u haeddfedu rhywfaint tu allan. Mewn tywydd anffafriol gellir eu gosod yn y ty gwydr, gyda'r drws a'r ffenestr yn agored. Pan fyddant wedi sychu ,dylid torri y coesgyn i ffwrdd a'i glanhau rhywfaint cyn eu storio. Er bod sawl dull o'i storio, y ffordd hen ffasiwn o'i rhaffio yw'r dewis gorau. Gyda'r winiwns Siapaniaidd nid yw'n ddefrydol i'w storio mwy na chwe wythnos, felly y ffordd orau yw eu gosod yn y rhewgell.

Ar yr arwydd cyntaf o anwyd neu wddf. tost peth da yw cnoi sleisen o winiwns ffres ac fe leddir y drwg yn y geg ymhen pum munud.




**A & B PLANT HIRE & TOOL HIRE**

Bryndolau, Ffarmers
Llanwrda
☎ (01558) 650536
Ffacs: (01558) 650516

HIRE ASSOCIATION EUROPE

hefyd yn -
The Old Slaughterhouse
Heol Llanfair, Llambed
☎ (01570) 422522
Ffacs: (01570) 421453

*Cysylltwch â'ch asiant lleol am*
HURIO ~ GWERTHU ~ GWASANAETH ~ RHANNAU ~ ATGYWEIRIO
*AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS*

**NEW ROAD GARAGE**
☎(01550) 720836
Gwerthir petrol a diesel yma
*Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni! Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos*
Pob math o wasanaeth moduron a gwaith Atgyweirio Ffrâm

**WILLIAM I. PHILLIPS**
**DERWENDEG, LLANSAWEL**
**☎(01558) 685446**
**Symudol 083659 89 89**
***CONTRACTWR CLUDIANT CYNNYRCH CHWAREL***

***ADEILAD CLADDINGS***
(*EIRIAN DAVIES*)
Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda
**☎(01550) 777497**
*zinc sheets a steel girders* arbenigwyr mewn toeon crwn




Yn ymddangos yn y llun, o'r chwith i'r dde yn y tu blaen, mae Hywel Jones, Cwm-du, Rini Griffiths, Esquel, yr Andes oedd ar ymweliad â Chymru a Hazel Charles Evans, Llandybie, athrawes a fu'n dysgu Cymraeg yn Esquel a Threvelin yn yr Andes am gyfnod o ddwy flynedd. Bu Rini a Hazel yn gyfrifol am lansio'r ymgyrch *"Brics i Batagonia"* yn Eisteddfod Penybont-ar-Ogwr yn 1998. Gwerthwyd miloedd o frics dros gyfnod o bedair blynedd ac fel canlyniad i hyn, bu'n bosibl i godi Canolfan Gymraeg yn nhref Esquel. Dyma lle mae'r Ysgol Gymraeg a dyma lle bydd pobl yn cymdeithasu yn y ganolfan braf hon y caiff y criw o Gwm-du a'r cyffiniau brofi o groeso brwd a chynnes Cymry'r Andes yn ystod eu taith ym mis Hydref. Hefyd yn y llun gwelir Gwyneth Davies, Mary Wood, Sylvia Jones, Esther Morgan, Oli James, Janet James, Glan James a John James. Bydd Dilwyn Davies a Trevor ac Audrey Price hefyd yn mynd ar y daith.

## Crug-y-Bar

**Gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg**

Llongyfarchiadau mawr i Iris Williams o Gwrt y Cadno a enillodd radd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan eleni. Nyrs Glinigol Arbenigol yw Iris wedi'i lleoli yn ysbyty Glangwili ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri. Dychwelodd i'w bro enedigol ddeuddeg mlynedd yn ôl, wedi nifer o flynyddoedd yn nyrsio mewn ysbytai ar led Prydain.



Dechreuodd Iris ar ei hastudiaethau trwy gymryd tri modiwl yn ystod y flwyddyn 1997-98. Wrth iddi eu mwynhau a sylweddoli nad oedd y ffaith ei bod heb astudio'n ffurfiol am nifer o flynyddoedd, yn rhwystr i'w mwynhad a'i llwyddiant, aeth ymlaen i ddewis modiwlau eraill. Yn ogystal ag amrywiaeth o fodiwlau ar lenyddiaeth gyfoes, Cymraeg Canol a hanes Cymru, dilynodd rai modiwlau mwy ymarferol fel isdeitlo a chyfieithu. Mae hi'n teimlo fod ei gradd wedi ehangu ei hopsiynau gyrfaol ar gyfer y dyfodol ac wedi sbarduno ei hawydd i ddysgu rhagor am ei hiaith a'i diwylliant. Hoffai ddychwelyd i'r Adran rywbryd i astudio am radd uwch yn y Gymraeg.

Am fanylion ynghylch sut i wneud cais i astudio am radd yn y Gymraeg, yn rhan amser neu'n llawn amser, yn y dosbarth neu ar-lein, cysylltwch â'r Dr Christine Jones, Swyddog Derbyn Adran y Gymraeg ar 01570 424931. Byddai Iris hefyd yn falch o rannu ei phrofiadau gydag unrhyw un sy'n ystyried dychwelyd at addysg a gellwch gysylltu â hi trwy ffonio'r Adran ar 01570 424754. Nid yw'n rhy hwyr i wneud cais ar gyfer Hydref 2004!

**Sioe Cwrtycadno**

Cynhaliwyd y sioe ar ddydd Sadwrn, 21 Awst ar gaeau Brynteg a chafwyd diwrnod braf yng nghanol tywydd digon ansefydlog. Croesawyd ein llywyddion Mr a Mrs Meirion Jones, Cheltenham gan ein cadeirydd Mr Eirwyn Jones.

Ganwyd Mr Meirion Jones yng Nghwmdar, Cwrtycadno ac yn ei anerchiad cawsom hanes diddorol iawn am ei blentyndod yn yr ardal. Mae'r sioe yn gyfle arbennig iddo bob blwyddyn i ymweld â'r teulu a ffrindiau a dymunodd pob llwyddiant i ddyfodol y sioe.

Gwelwyd cefnogaeth dda yn adrannau'r ceffylau a chŵn a'r holl weithgareddau ar y cae, ond cystadleuthau'r babell oedd yn sefyll allan eleni. Roedd yn wledd i'r llygaid gyda phob oedran yn llawn ac o safon uchel.

Bu tipyn o hwyl yn y mabolgampau gyda'r ras fawr o amgylch y cae i gloi. Bywiog iawn fu'r ras hwyaid hefyd gyda'r Cothi'n llifo'n gryf. Yn dilyn y gystadleuaeth taflu 'weli' yn y prif cylch gwelwyd gêm rygbi rhwng CFfI Dyffryn Cothi a thîm Cwrtycadno. Gêm gyffrous iawn gyda Chwrtycadno yn dod nôl yn gryf yn yr ail hanner. Y sgôr terfynol oedd 10 pwynt i 5 i Ddyffryn Cothi. Gwell lwc tro nesaf Cwrtycadno. Gwelir isod restr o bencampwyr y Sioe.

Ceffylau – Sian Gardner, Ffaldybrenin
Cŵn – V. Everington
Dosbarth Amrywiol – D Ford Pumsaint
Amaethyddiaeth –John Thomas, Frongoch a Bill Mercer, Brynteg
Garddwriaeth – Mr Manifold, Glanyrafon
Blodau – Jenny Waite, Gosod Blodau – Rhian Lewis, Pentwyn
Gwobr arbennig dan 21 – Rhian Lewis, Pentwyn
Gwaith Llaw – Iris Williams, Llwynceiliog
Coginio – Val Edwards,
Gorau mewn adran – Heulwen Jones, Aberbranddu
Cynnyrch Cartref – Jenny Waite, Ffynnongrech
Ffotograffiaeth – Jenny Waite, Ffynnongrech
Adran y plant dan 7 – Jaxon Fallon, Cefnllwynhir
Adran y plant dan 12 – Lynwen Mathias, Tynwern
Adran y plant dan 18 Rhian Davies, Pencader
Taflu 'weli' dan 14 – John Stacey, Tynwaun
Taflu 'weli' dros 14 – Glyn Davies, Cothivale
Ras Hwyaid – Ann Williams, Llwynceiliog
Ras o amgylch y cae (merched dan 14) – Elliw Mair Davies, Gwarffynnon
Ras o amgylch y cae (merched dros 14) – Sian Williams, Glanrhyd
Ras o amgylch y cae (bechgyn dros 14) – Huw Williams, Talyllychau


**D. LLOYD A'I FEIBION**
GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA
☎(01558) 650209 A 650451
*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu a ffensio o bob math. Gwneuthurwyr gatiau pren i safon "Tir Cymen"*
*SEFYDLWYD 1797*

Hwyl a sbri
**LLOGI CESTYLL NEIDIO**
**Beth am roi hwyl a sbri i'r parti?!**
**Cestyll bownsio tu fewn neu'r tu allan**
Prisiau o £35 y dydd
Nifer o gestyll â themâu gyda llithren
Dosbarthiad am ddim o fewn 15 milltir
☎ (01269) 850051

## FFARMERS

**Parc Bro Fana**

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Lloffwr at farwolaeth Darrell Blythe wrth iddo dderbyn triniaeth lawfeddygol ym Mryste. 'Roedd Darrell yn gymeriad hapus a serchog ar hyd y pentref, ac mae Pwyllgor y Neuadd yn ddiolchgar i deulu Darrell am gyflwyno tri bwrdd picnic i Barc Bro Fana er cof amdano. Gwerthfawrogir yn fawr eu haelioni.

**Carnifal a Mabolgampau Bro Fana**

Cynhaliwyd y Carnifal a Mabolgampau blynyddol ar Barc Bro Fana ar ddydd Sadwrn, 14 Awst, a chafwyd diwrnod hyfryd, cefnogaeth dda, a chystadlu brwd yn yr holl gystadleuthau. Llywyddion y dydd oedd Mr a Mrs Alun Davies, Llety Wyn, Llambed. Mae Alun yn enedigol o'r pentref , a braf oedd cael cyfle i'w groesawi ynghyd a'i wraig Julie a'r ferch fach Zoe, yn ôl i'r pentref. Diolchir i'r swyddogion am drefnu'r diwrnod, ac i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dydd.



**Piano**

Mae'n flin gennym gofnodi fod yr hen biano yn y Neuadd wedi dod i ddiwedd ei oes, a bu rhaid ei waredu yn ddiweddar. Adeiladwyd y piano ym 1862, ac roedd wedi bod yn y Neuadd ers y 50au. Mae'n rhaid codi arian nawr i brynu piano newydd, ac mae Pwyllgor y Neuadd wedi dod i fyny â'r syniad o "Noddi Nodyn." Gwahoddir unrhyw un sydd yn awyddus i gefnogi'r cynllun i noddi nodyn am £10. Bydd yr holl noddwyr yn cael eu cofnodi, ac eisoes, cafwyd cychwyn da ar yr ymgyrch yn y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol. Os oes unrhyw un yn barod i "Noddi Nodyn," bydd aelodau'r Pwyllgor yn barod i dderbyn eich cyfraniad

## GELLI AUR

**Oes o Wasanaeth**

Ar ddiwedd Awst eleni fe wnaeth Mrs Nan Owen, Llwyn-yr-eos, Gelli Aur ymddeol yn dilyn cyfnod o bymtheg mlynedd ar hugain fel gofalydd cymunedol yr henoed. Gwasanaethodd gylch eang yng nghanol Dyffryn Tywi ac o ganlyniad mae degau o deuluoedd yn ddyledus i Nan am y gofal annwyl a thrylwyr a roddodd i'w hanwyliaid pan oeddent yn fethedig neu'n wael iawn eu hiechyd. Gyda Nan yn byrlymu o egni, tebyg y gwelwn hi eto yn gwasanaethu yn y cylch. Dymuniadau gorau am iechyd da ac hir oes iddi hi a'i phriod Eddie.

## LLANDEILO


**Oedfa Gartrefol yn Soar y Mynydd**

Y tro diwethaf y bues i'n agos i Soar y Mynydd, roedd sir Aberteifi yn noddi y Sioe Frenhinol a'r diweddar Tom Evans, Troedyraur yn llywydd, a'r diweddar Arglwydd Geraint o Bonterwyd yn agor y sioe. Roedd hynny nôl yn 1995. Bryd hynny roeddwn yn gweithio ar y rhaglen 'Hel Straeon', a Siriol Butterworth yn cyflwyno. Er mwyn codi arian at y sioe, roedd criw dewr yn marchogaeth ar hyd ffordd y porthmyn o Landdewi Brefi i Lanwrtyd ac ymlaen i faes y sioe yn Llanelwedd. Tasg digon anodd i griw ffilmio mewn 4X 4, ond treth ar ben-ôl a llawer mwy i'r rheiny oedd ar gefn ceffyl! Ta waeth fe fu'n ddiwrnod hynod o lwyddiannus.



Y Sul yn dilyn y Sioe Fawr, Sul ola Gorffennaf, fe gafodd gweinidog Capel Newydd y syniad o drefnu trip i Soar y Mynydd i gynnal oedfa yn y bore ar gyfer yr ofalaeth. Ar fŷs Ffoshelig a thri char – roedd dros saithdeg o bererinion yn gadael Llandeilo am 9:30 y bore. Yn dilyn siwrne go hir a throellog ond heibio i rai o olygfeydd mwyaf godidog Cymru, y daethom yn un gorlan gytun i'r hen gapel bach.

Canu heb organ na chymorth unrhyw offeryn arall oedd y nod, a thrwy fforch diwnio a chlust fain gerddorol Rhiannon a Nia Clwyd, fe lwyddwyd i gael canu o safon. Roedd y Parch Edward Griffiths ein gweinidog wedi trefnu fod gwahanol aelodau o'r ofalaeth yn cymryd rhan, gan gynnwys pedair o ferched ifanc ysgol Sul Capel Newydd – sef Gwennan, Lois, Siwan a Mared. Fe ganon nhw "Cofia bob amser, cofia bob tro" yn ddigyfeiliant. Eraill a gymerodd ran oedd Dyfrig Davies a Shân Evans, Capel Newydd, Gwenfyl Evans, Salem, Elin Bishop, Capel Isaac, a Joy Morgan-Davies, Seion. Cyn y cymundeb fe atgoffodd y gweinidog y gynulleidfa mewn modd gartrefol gofiadwy am Dduw y crëwr a Duw y gofalwr. Ynd yng nghanol ysblander moel byd natur, roedd hi'n hawdd ymdeimlo â rhyfeddod y cread.



Wedyn fe weinyddwyd y cymun, gan dorri ar draddodiad a gwahodd y bobl ifanc i ymuno, - profiad y byddan nhw yn ei gofio am byth.

Peth braf yw fod yr hen gapel bach yn dal ar agor, fod yno bobl hyd yn oed yn y byd modern sydd ohoni, yn dal i weld gwerth



## ~ Merched y Lloffwr ~

Mae'r golofn hon yn gyfle i un o ferched bro Dinefwr ddweud ei dweud bob mis. Bydd rhywun gwahanol yn cyfrannu ym mhob rhifyn o'r *Lloffwr*, yn sôn am rhywbeth mae hi am fwrw ei bol yn ei gylch, neu ei rannu â chi.

Y mis hwn, tro Haulwen Booth, Gwynfe yw hi.

**Hwyl yr Haf**



'Daw Awst, daw nos' ac erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Lloffwr* weld golau dydd mi fydd hi eisoes yn fis Medi. Gwyliau'r haf wedi dod i ben a blwyddyn arall yn dirwyn i'w therfyn.

Rwy'n ei gweld yn fraint o fod wedi cael fy magu ynghanol y wlad a'r cyfle i gael blasu'r tymhorau yn eu tro. Cofiaf yn arbennig wyliau'r haf. Nefoedd fach dawel oedd cael dianc i lannau'r Tywi a theimlo'n braf heb unrhyw gyfrifoldeb. Synfyfyrio wrth orwedd ar y gro neu syllu'n geg agored wrth wylio 'mrawd yn coglais brithyll o dan y boncyff. Y wefr a gaem wrth gyrraedd Y Gors o weld wyneb 'mam-gu Gors' (er nad oedd y cyswllt teuluol mor agos a hynny) yn wên o glust i glust a'i chroeso mor amlwg. Cael mynd i ôl du'r o'r ffynnon neu i hel mwyar duon a rhyfeddu nad oedd yn llawer o ymdrech i ni sicrhau bod cnwd toreithiog ar y llwyni drain. Cofio cael fy synnu na ddeuai'r nos i amharu ar ein chwaraeon a'n hapusrwydd - fe fyddai'r nos wedi ffoi cyn i ni godi'r bore a ninnau blant yng ngwlad hud a lledrith cyn iddi ddychwelyd. Ni allem fentro hyd yn oed trwy lidiart yr ardd heb arogli'r gwair cras yn ein ffroenau. Gorffennaf ac Awst - misoedd plant y wlad. Y gwersi'n cael llonydd am chwe wythnos a chyfle i'r chwerthin iach lenwi'r cymoedd tawel. Misoedd y rhosynnau, ac onid rhosynnau yw'r plant yn llygad eu rhieni a chymdeithas gyfan yn dotio arnynt?

Ond beth bynnag fo atyniadau'r tymor, troi mae olwyn amser. Fel yr awgryma enw un o'r misoedd – Gorffen Haf. Yn y tymor hwn y cawn ddiwrnod hiraf y flwyddyn, a bydd yr haul yn cyrraedd ei gyhydedd – troad y dydd. Cyn diwedd Awst fe fyddwn yn cwyno yn barod fod y dydd yn byrhau, adar mân Mai wedi tewi, y wennol oedd o dan y bondo yn paratoi ar gyfer ei mordaith a blodau siriol y maes a'r ffriddoedd yn cau eu cwpanau.

Mae hafau daear yn gorffen, ond mae'r haf y cawn os dymunwn ei ddewis heb unrhyw derfyn arno. Gadewch i ni sicrhau bod hafau ein bywyd yn llwyddiannus ac i ni fyw drwyddynt yn llygad Haul Cyfiawnder, a throsglwyddo i'n plant yn y cyfnod hwn nad yw ysgol bywyd yn cau am wyliau haf. Rhaid dal i lafurio a boed i'w dawn a'u talent aeddfedu fel bod y gymdeithas a ddotiodd ar y rhosynnau ym mlodau eu dyddiau ar eu hennill.

Gobeithio i chi gyd fwynhau gwyliau'r haf eleni.

**CYMDEITHAS Y GWARTHEG DUON CYMREIG**

Fel rhan o ddathliadau can mlwyddiant Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig trefnwyd taith y porthmon trwy ganol tref Llanymddyfri ar 27 Gorffennaf, fel y gwelir yn y llun.





Dilwyn Bennet Jenkins, Fferm Cerrig Caranau, Tal-y-bont, Aberystwyth yn torri'r gacen yng nghinio can mlwyddiant y Gymdeithas ym mis Gorffennaf. Arweinydd y noson oedd llywydd y gymdeithas, Dai Jones, Llanilar.



Eirian Griffiths, Fferm Glandulais Isaf, Llangybi, Llambed gyda 'Eirianfa Ebrill' – pencampwr y gwartheg eidion yn y Sioe Fawr eleni gyda'r swyddogion, noddwyr a'r beirniaid.

**SIOP Y PENTAN**
*Y dewis gorau o lyfrau casetiau a chardiau Cymraeg*
Y FARCHNAD NEWYDD
CAERFYRDDIN
☎(01267) 235044

## ~ LLECYN LLÊN ~

***Cystadleuaeth y limrig***

Ymddiheuriad yn gyntaf am i 'teidi' fynd yn 'fedi' ar ddiwedd yr ail linell o'r limrig wrth fynd drwy'r wasg, fe ddigwydd pethau felly o dro i dro. Derbyniwyd un-ar-bymtheg o linellau i orffen y limrig. Yr oedd y mwyafrif ohonynt yn foddhaol o ran iaith a mydryddiaeth, ac yn cloi y pennill yn ddigon hapus.

Byddai rhai yn feirniadol o'r arfer a welir yn y gystadleuaeth o odli gair fel CANU sy'n gorffen ag 'u', gyda BARDDONI sy'n gorffen ag 'i'. Mewn englyn neu eraill o'r mesurau caeth buaswn innau hefyd yn anghysurus gyda'r fath odl, am fod 'i' yn swnio yn hollol wahanol i 'u' i glust gogleddwr. Ond mewn pennill ysgafn fel limrig, a hynny mewn cystadleuaeth leol lle mae'r ddwy lafariad hyn yn swnio'n hollol r'un fath i'n clustiau ni, mae odli BARDDONI a CANU i mi yn dderbyniol.

Dyna siom mewn cystadleuaeth yw dod ar draws llinell yn cynnwys syniad da, ond yn cael ei handwyo gan wall iaith neu fydryddiaeth. Dyma hon, -

Mewn wynfyd nefolaidd o odli.

Mae ynddi ddisgrifiad da a fardd yn cael hwyl wrth gyfansoddi, ond am ryw reswm gadawodd allan y 'G' yn Gwynfyd. Dyma un arall a hoffais, -

Hefo geiriau yn unig gwmpeini.

Fe sylwch taw naw sillaf sydd i ddwy linell gyntaf y limrig, ond yn anffodus mae deg yn hon. A dyma'r llinellau eraill a gafwyd.

Yn llunio barddoniaeth yn llwythi.
Yn swyno y merched a'm cerddi.
Yn ceisio difyrru y cwmni.
Yn gwneuthur y gorau o'm hobi.
Yn arfer y ddawn o brydyddu.
Yn meddwl am ddydd y coroni.
Am Gadair yr Wyl yn anelu.
A'm papur a phen yn rhigymu.
Yn llunio pob math o faledi.
Mewn gobaith y cawn fy nghoroni.
A'r awen fel balm i'm diwallu.
Efo'r saint ar ynys hud Enlli.
Mor hapus â'r eos yn canu.

Pa un yw'r orau? I mi mae yr un olaf yna sy'n dweud ei fod yn canu mor hapus a'r eos wedi iddo gael y ddawn i farddoni yn derfyniad hyfryd a gorffenedig i'r limrig.

Pe cawswn y ddawn i farddoni
A llunio penillion bach teidi,
Mi fyddwn yn awr
Yn treulio bob awr
Mor hapus a'r eos yn canu.

Llongyfarchiadau i Trefor Evans o Landybie. Dyma bennill bach arall i brofi eich dawn.

Mae'r haf unwaith eto yn cilio
A'r wennol a'r gog wedi mudo,
Yn fuan mae'r dydd
Yn dyfod pan fydd
.......................................

Brawddeg o'r gair CYDWYBOD.

Tair-ar-ddeg o frawddegau a gafwyd y tro hwn, a hynny mewn cystadleuaeth dda. Roedd beiau treiglo mewn pedair ac un neu ddwy wedi anghofio am yr "a" sydd i fod o flaen y ferf. Dechreuwn gyda'r rhai â gwall treiglo.

Creadigaeth y dynoliaeth wylofus yw bywyd o dristwch.

Oherwydd taw gair benywaidd yw 'dynoliaeth', mae'n treiglo i Ddynoliaeth pan fydd "y" o'i flaen.

Cymydog yw Duw waraidd yn byrlymu o drugareddau.

Am fod y gair 'Duw' yn wrywaidd, ni ddylid treiglo'r ansoddair sy'n ei ddilyn, 'Duw Gwaraidd' sy'n iawn.

Camp y dadeni wyrthiol ydoedd byd o darganfyddiadau.

Gair gwrywaidd yw 'dadeni', felly 'dadeni Gwyrthiol'. Hefyd mae 'darganfyddiadau' yn mynd yn 'Ddarganfyddiadau' ar ôl "o".

Camp y diafol wrthnysig yw bychanu o'r dechrau.

Rhaid cael 'diafol Gwrthnysig' i gael y frawddeg yn iawn.

A dyma'r gweddill a dderbyniwyd.

Cyfle y dyn wylofus yw buddugoliaeth Oen Duw.

Ceisiwn y da, wedyn y bydd ofn drygioni.

Caled yw dianc wrth ynfydrwydd barus oes drachwantus.

Cyfraith ysgrythur Duw wnai ymestyn buddugoliaeth o dangnefedd.

Cadarn ydyw'r dyn wrthwynebai y byd o derfysg.

Côr y de wedi ymlonni'r beirniaid o'r dechrau.

Ceisiwch yn dragwyddol waredu y byd o'i drychinebau.

Criodd yn dorcalonnus wrth ystyried byrder oes dyn.

Cwsg yn dawel wedi ysgwyddo baich oriau'r dydd.

Mae nifer o frawddegau da ymysg y tair-ar-ddeg yma, ond y mae symlder naturiol yr un olaf hon wedi apelio ataf i, a hi sy'n ennill y tro hwn.

Y buddugwr yw Mair Williams o Langadog.

Beth am frawddeg o'r gair DIWRNOD erbyn y tro nesaf.

Anfonwch eich gwaith i T.M Thomas, Tirallen, Llanwrda erbyn 12 Hydref.


L.J. BAILEY A'I FEIBION
LLANGADOG (*Siop Fwydydd MACE*)
*Prisiau cystadleuol*
*Pob math o gig a bacwn o ansawdd da*
*Gwasanaeth rhagorol bob amser*
☎ (01550) 777217 [Bwydydd]
☎ (01550) 777242 [Cigydd]

NATIONAL CO-OPERATIVE CHEMIST
Fferyllfa Gymunedol Leol
☎ (01558) 823229
Ystod gynhwysfawr eang o nwyddau a chynnyrch i wneud bywyd yn hawdd ac yn hapusch i'r oedrannus a'r anabl

EIFION ROBERTS
PLYMWR PROFIADOL
*Arbenigwr mewn gwres canolog*
☎(01558) 685007

Roger Davies
LLOGI PEIRIANNAU
Gwnawn unrhyw waith - bach neu fawr
*10 mlynedd o brofiad*
☎(01558) 685614
07968 838467
Peiriannau turio â thraciau 5-15 tunnell.
Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau trymion.
Cwmgolygfa, Rhydcymerau, Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP




mewn hen adeilad bach yng nghesail y mynyddoedd. Mae gwerth i Soar y Mynydd, nid yn unig fel lle hynod i addoli, ond fel lle i ddwyn pobl at ei gilydd, fe ddywedodd y gweinidog ar ddechrau'r oedfa, fod hi'n gryn gamp i gael 70 o'i aelodau i ddod at ei gilydd ar Sul arferol nôl yn Llandeilo – ond cynigwch drip ac mae'n fater gwahanol! Hir y parhaed Soar y Mynydd - yn ei symlder a'i leoliad mae ei apêl.

Yn dilyn yr oedfa gartrefol, syml ond cwbl fendithiol, fe ymunodd pawb gyda'i gilydd i gael cinio dydd Sul traddodiadol nôl yn Llanymddyfri. Diweddglo hyfryd i Sul a fydd yn aros yn y cof am amser hir. Diolch i'r Parch Edward Griffiths ac i Arwyn a Shân Evans am drefnu.

Bŷs o borthmyn yn uno - i rannu
Yr Oen a chydsynio;
'Ma enaid yn cymuno, -
Hen fraint addoli'n y fro.

W.D.D

**Noson Lawen**

Dan arweiniad John Gwynne, Closglas cafwyd noson hwylog a phleserus ym Mhabell Fawr Cae Sioe Llandeilo ar nos Sul, 22 Awst. Noson oedd hon i godi arian i Apêl Sir Gâr 2005 er mwyn noddi'r Sioe Fawr yn Llanelwedd blwyddyn nesaf. Cafwyd perfformiadau hyfryd a graenus gan yr artistiaid i gyd, sef Côr Merched Llandybie; Eirian Davies, Cwmifor; Ina Morgan, Llanfynydd; William Rees, Manordeilo; a dwy o ferched C.Ff.I Llanfynydd, sef Meinir Jones, Capel Isaac a Ffion Jones, Dryslwyn. Pleser mawr oedd cael Mr Martin Davies, y Milfeddyg o Salem fel llywydd y noson a chwmni llywydd y sioe flwyddyn nesaf Mr David Lewis, Llandysul a'i briod.

***Cyngerdd Mawreddog***

Cynhelir cyngerdd gyda Chôr Rhuthun a'r Cylch a Bois y Castell yn y Capel Newydd ar 2 Hydref am 7.30pm. Cyngerdd a drefnir gan Fois y Castell yw hwn er mwyn codi arian i'r elusen Tŷ Hafan. Mae'n argoelu'n noson i'w chofio, felly cofiwch archebu eich tocynnau ymlaen llaw, sydd ar gael gan aelodau'r côr am £6 a £4 i blant oedran cynradd.


GERAINT WILLIAMS
*Modurdy Rhosybedw Ffaldybrenin*
☎ (01558) 650609
*Gwasanaeth cyrff moduron ar gyfer gwaith yswiriant neu breifat*
*Profion MOT, Batteries, Exhausts*
*Gwasanaeth Adfer ac Atgyweirio*

JOHN ANTHONY
*a'i Gwmni*
CERFLUNWYR COFADEILIAU a SEIRI MAEN

*Perch. E. J a N. Gimblett (C. Harry gynt)*
28a STRYD FAWR, RHYDAMAN
☎(01269) 596227 Nos: 592935
*Cerflunwyr Cofadeiliau yn lle uchod ers 1920 hefyd yn*
6 STRYD Y FARCHNAD, LLANDEILO
☎(01558) 823104


## LLANWRDA

**Mabwysiadu Gorsaf Reilffordd**

Mae gorsaf reilffordd Llanwrda wedi ei fabwysiadu gan Hywel Jones, Cwm-du, fel rhan o "Fenter Mabwysiadau Gorsaf Drenau Arriva Cymru". Bydd Hywel yn gyfrifol at gyfrannu, trwy ymweld â'r orsaf yn rheolaidd a llenwi "Ffurflen Arolwg", rhoi gwybod i Trenau Arriva Cymru (TAC) am unrhyw ddifrod, fandaliaeth, neu adfeiliaid, awgrymu gwelliannau, hefyd syniadau er lles cyffredinol y cwsmeriaid sydd yn defnyddio'r orsaf. Gofynnwyd iddo wneud y cais am fabwysiadu gorsaf Llanwrda gan un o uwch swyddogion TAC, pan yn teithio ar y tren "arbennig" i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf, gan fod gorsafoedd trenau'r cylch, sef Llandeilo, Llangadog a Llanymddyfri eisioes wedi eu mabwysiadu.

## LLANYMDDYFRI

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau i Catrin Stephens Dôl Hywel, unig ferch Eirwyn a Mary Stephens ar ei dyweddiad â Cenwyn Brain, Llangain Caerfyrddin. Dymuniadau gorau iddynt oddi wrth y ddau deulu.

***Llwyddiant***



Llongyfarchiadau i Teleri Walters o Lanymddyfri a enillodd 3 gwobr gyntaf a 4 ail wobr am waith llaw a choginio yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd. Hefyd cafodd darian Edward ac Eireen Perkins am gael y pwyntiau mwyaf yn nosbarthiadau'r plant.

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol**

Llongyfarchiadau calonnog i Lowri Morgan Bryn Derw ar ennill Gwobr Nansi a J.R.Evans am gyfansoddi cerddoriaeth yn yr adran i ieuenctid yn Eisteddfod Casnewydd. Roedd y gystadleuaeth yn gofyn am ddau ddarn cyferbyniol, un lleisiol ac un offerynnol. Yn ôl y beirniad, Euros Rhys Evans roedd y gwaith yn ddiddorol ac yn dangos cryn aeddfedrwydd. Mae Lowri yn ddisgybl chweched dosbarth ac yn astudio cerddoriaeth yn Ysgol Gyfun Pantycelyn.


*CARPEDI PUMSAINT*
*Gwasanaeth gosod carpedi hen, ail-osod neu newydd*
*Ffoniwch Alun (01558) 650364 neu 07977 121201*
AXMINSTERS, WILTON, TWISTS, GWLAN, CORDS, CUSHIONFLOOR, UNDERLAYS
*"Carpedi i Siwtio Pawb"*
*Gellir trefnu ymweliad â'r cartref gyda samplau.*

## MANORDEILO A SALEM

**Cyngor Cymuned**

Bu cyfarfod misol Cyngor Cymuned Manordeilo a Salem yn Neuadd Goffa Salem ar nos Fercher, 14 Gorffennaf gyda'r Cynghorydd Hywel Hanley yn y gadair. Ar ddymuniad aelodau'r Cyngor daeth Swyddog Cymunedol yr Heddlu, PC Vernon Thomas i'r cyfarfod. Mewn ymateb i bynciau a godwyd gan y cynghorwyr cytunodd y byddai'r Heddlu yn rhoi sylw i'r ffaith bod rhai yn dod i'r ardal i saethu ar diroedd heb ganiatâd perchnogion; bod moduron yn parcio ar balmentydd ym mhentrefi'r gymuned; cyflymder modurwyr ar heolydd cul y wlad; a bod plant yn dringo i ben to y Neuadd Goffa yn Salem er bod yr adeilad bellach braidd yn fregus.

Hysbysebodd y Cynghorydd Doris Jones bod yna rai trigolion a ddaeth i fyw i'r ardal yn cael trafferth i ddod o hyd i Eglwys Maesteilo oherwydd cymhlethdod yr heolydd bach lleol. Cytunodd y Cyngor i alw ar y Cyngor Sir i ystyried rhoi arwyddion i gyfeirio pobl i'r Eglwys. Penderfynwyd hefyd i wahodd rhai sy'n barod i gymryd at y gwaith o atgyweirio a gwella llwybrau cyhoeddus yr ardal i gysylltu â chlerc y Cyngor, Alwyn Roberts i gael manylion.

## PUMSAINT

**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r gangen yn y Neuadd ar Nos Fercher 1 Medi, a chafwyd noson hyfryd yng nghwmni Mr Douglas Thomas o Dalyllychau sy'n arbennigwr ar wneud gwîn. Bu yn olrhain hanes yr holl broses o gasglu ffrwythau a llysiau a'u troi yn wîn clir a blasus. Rhannodd ei wybodaeth eang a ni, a barnu wrth y gwrandawiad a'r blasu i ddilyn roedd y testun a'r cynnyrch at ddant pawb oedd yno. Does ryfedd yn y byd ei fod wedi ennill rhai o brif wobrau'r wlad am ei wînoedd.

Y Llywydd eleni yw Ray Davies Peronne, a chydymdeimlwyd a hi ar golli ei brawd Dan yn Surrey yn ddiweddar o hen deulu Nantllyn. Yr ysgrifennydd yw Gwenfudd James, ond yn anffodus oherwydd afiechyd ni fedrai hi fod yn bresennol. Dymunwn wellhad buan iddi. Eirwen Thomas sydd a gofal yr arian. Yr Is-Lywydd yw Esme Jones, Is-Ysgrifennydd Iris Evans, Is-Drysorydd Ann Thomas, Dosbarthydd y Wawr Rosina Jenkins, Gohebydd y Wasg Joan Jones. Trefnwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer y flwyddyn i ddod a chroeso cynnes i holl ferched yr ardal ymuno a ni ar Nos Fercher gyntaf pob mis.

## TALYLLYCHAU

**Dydd Hwyl yr Ysgol**

Dydd Sadwrn, 10 Gorffennaf cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod o hwyl gyda thema ganoloesol ar safle'r fynachlog yn Nhalyllychau. Cafwyd pob math o atyniadau megis stondinau, adrodd storiau a 'Knock-out' canoloesol gan Talley Tigers, y clwb ieuenctid.

Gyda'r nos cafwyd rhostio mochyn a disco yng Nghwesty Rhydodyn gyda Geraint Davies, Glanyrafonddu isaf fel arwerthwr a gyda'i gymorth ef codwyd bron £2,000 yn ystod yr arwerthiant yn unig. Bu'r gweithgareddau'r prynhawn a'r hwyr yn llwyddiant mawr a charai'r athrawon, y llywodraethwyr a'r rhieni ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob cefnogaeth a chymorth.

**Garddio**

Llongyfarchiadau gwresog i Siân Elin Thomas, Cilyllynfawr ar ennill gradd B.SC gydag anrhydedd mewn Cyfrifeg ym Mhrif Ysgol Caerdydd. Cynhaliwyd y seremoni raddio ddechrau mis Gorffennaf. Dymunwn lwyddiant pellach i Elin ym Mhrifysgol Abertawe pan fydd yn cychwyn ar gwrs ymarfer dysgu mewn Mathemateg a Chyfrifiadeg.

**Cymdeithas Cymuned Talyllychau**

Cynhaliwyd cyfarfod pellach i ystyried prosiect Coedwig Talyllychau pan drafodwyd datblygiadau ar gyfer y goedwig. Bwriedir ystyried y posibilrwydd o wella'r fynedfa i'r llynnoedd ac i reoli pysgota ar y llyn.

## TRAP

**Dathlu 150 o Flynyddoedd Ysgol Trap**

Yn y llun isod gwelir aelodau o gast 'Yn Ôl ac Ymlaen' - drama 'epig' (!) hanesyddol a berfformiwyd yn ddiweddar i ddathlu 150 mlynedd o fodolaeth yr Ysgol. Cafwyd golygfeydd o amrywiol gyfnodau a digwyddiadau o bwys yn hanes yr ardal a hanes y wlad yn gyffredinol. Cymerwyd rhan y 'storiwr' lliwgar gan Robert Owen, Pen-Waun, Trap, a darlledwyd bwletinau newyddion o 1854 hyd at y dydd heddiw gan Ellen Llewelyn o Fferm y Castell, Trap.



Cafwyd perfformiad bythgofiadwy o ddawns y '*Charleston*' gan Sefydliad y Merched, Trap fel rhan o r perfformiad lliwgar a diddorol yma.



Cyfarwyddwyd y ddrama gan Llio Silyn ac ysgrifennwyd y ddrama ar y cyd gan Emily Hinshelwood a Llio. Ond sêr y sioe heb os nac oni bai oedd plant yr ysgol a roddodd bortread o amrywiaeth o gymeriadau. Gwr gwadd y noson oedd Adam Price A.S.

Roedd y sioe yn rhan o ddiwrnod cyfan o weithgaredd a dathlu. Dechreuodd y diwrnod gyda ras hwyaid yn y Felin yn Trap, lle daeth tri aelod o gast *Pobol y Cwm* i ymuno yn yr hwyl. Yna cafwyd te parti'r aduniad yn yr Ysgol pan daeth oddeutu dau gant o gyn-ddisgyblion Ysgol Trap ynghyd i gael gwledd a baratowyd gan ferched amryddawn y W.I.

Yn ystod y dydd roedd yr ysgol ar agor i'r cyhoedd lle cafwyd arddangosfa o hen luniau, creiriau, storiau a hanesion a berthynai i'r ysgol. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy, a diolch i'r holl bobl yn y gymuned a weithiodd mor galed yn paratoi popeth. Diwrnod o rannu atgofion a straeon o ddyddiau yn yr ysgol fach hynod yma a thywynnodd haul cynnes mis Gorffennaf ar y cyfan.



**RHOI'R BYD YN EI LE!**

Fe glywsoch efallai am y cynllun i godi papur newydd dyddiol Cymraeg am y tro cyntaf erioed. Gyda'r rhifyn hwn o'ch papur bro mi fyddwch yn cael copi o'r *Byd* a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ei bwrpas yw lledaenu gwybodaeth am y cynllun hanesyddol hwn. Gobeithio y cewch chi flas ar ei ddarllen ac y byddwch yn ystyried ymuno â'n Clwb Cefnogwyr a dod yn rhan o'r broses o sefydlu papur dyddiol cenedlaethol.

Papur dyddiol i Gymru gyfan fydd *Y Byd*. Ni fydd yn cystadlu mewn unrhyw fodd â'r papurau bro ond yn hytrach yn llenwi bwlch. Mae angen y naill a'r llall arnom. Bydd yr hysbysebwyr a'r sbonsoriaid yn y papur cenedlaethol yn rhai sydd am hysbysebu drwy Gymru benbaladr. Nid newyddion papur bro fydd yn *Y Byd* ychwaith ond bydd yn cynnwys eitemau o bob ardal yng Nghymru pan fydd angen tynnu sylw ehangach at yr hyn sy'n digwydd yno.

Bydd y papur yn creu swyddi yn y Gogledd, y De a'r Canolbarth. Fel hyn bydd yr arian o hysbysebion a gwerthiant i gyd yn aros yn yr economi Gymreig a Chymraeg yn lle mynd at grwpiau mawr o bapurau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru. Rydym eisoes wedi cynnal cyfarfodydd mewn dwsin o lefydd yng Nghymru ac os na fuom yn eich ardal chi eto mi fyddwn yn siwr o ddod dros y misoedd nesaf. Yn y cyfamser gallwch hefyd edrych ar ein gwefan www. ybyd.com neu ysgrifennu atom i gael taflenni neu gopiau pellach o'r papur i'w dosbarthu i gymdeithasau, grwpiau dysgwyr ac ati: Cwmni Dyddiol, Canolfan Mercator, Y Buarth, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1NN.

*Ned Thomas, Cadeirydd Dyddiol Cyf*

**CYFLE GWYCH I HYRWYDDO EICH CWMNI**

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru glywed gan gwmnïau sy'n awyddus i fynegi diddordeb mewn noddi **Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2005.**

Gwahoddir chi i fod yn rhan o'r rhaglen flynyddol arloesol hon, sy'n gwobrwyo ac yn annog arferion sy'n dangos sensitifrwydd ieithyddol ar gyfer cenedl sy'n dod yn fwyfwy dwyieithog. Mae yna saith categori sy'n ymwneud ag amrywiol agweddau'r maes gofal iechyd.

Yn dilyn llwyddiant Gwobrau 2004, a ddenodd gryn sylw, caiff Gwobrau 2005 eu cyflwyno eto gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Drwy fynegi eich cefnogaeth i'r iaith Gymraeg, gallech elwa'n fawr fel cwmni. Bydd cyfleoedd marchnata ar gael drwy gydol yr ymgyrch, yn ogystal ag yn yr achlysur cyflwyno gyda'r Gweinidog yng ngwanwyn 2005.

**Cewch fwy o fanylion gan:**
**Gethin Edwards**
**Uned Iaith Gymraeg y GIG**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Llawr 4 Parc Cathays 2**
**Caerdydd CF10 3NQ**
**Ffôn: 029 2082 5712**
**Ebost: uned-yr-iaith@wales.gsi.gov.uk**

**Dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb: 25 Hydref 2004**

**www.cymru.gov.uk**

## ~MENTER BRO DINEFWR~

**CYFARFOD CYFFREDINOL**

Ar nos Fawrth 7ed o Fedi eleni fe ddaeth tyrfa gref ynghyd i Westy'r Castell yn Llanymddyfri ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Fenter. Mae'r cyfarfodydd cyffredinol yn teithio o gwmpas yr ardal yn flynyddol – ac yn profi fod yna ddiddordeb yng ngwaith y Fenter ymhob ardal.

Cafwyd gair o groeso gan Mererid Vaughan Jones y Cadeirydd a derbyniwyd cofnodion 2003. Yn ogystal â derbyn adroddiad y trysorydd cafwyd amlinelliad a chyflwyniad i'r Adroddiad cynhwysfawr gan Owain Sion Gruffydd, Cyfarwyddwr y Fenter.

Yn ei adroddiad fe gyfeiriodd Owain at y lli o weithgareddau y mae'r Fenter wedi bod yn rhan ohonyn nhw ac yn eu trefnu. Yn dilyn amlinelliad pellach gan y Cadeirydd cyflwynwyd un o'r siaradwyr gwadd sef – Prif Weithredwr y Bwrdd Iaith – Meirion Prys Jones.

Cyfeiriodd ef at bwysigrwydd gwaith y mentrau iaith – ac yn benodol am lwyddiant ym Mro Dinefwr gyda'r Theatr Ieuenctid. Llongyfarchodd y Fenter hefyd ar fod yn un o'r rhai sydd wedi ennill gwaith Adfywio Cymunedol gan y Cyngor Sir. Soniodd am y cynllun i farchnata addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ninefwr Derbyniwyd ei eiriau a'i weledigaeth gyda chroeso brwd. Etholwyd W. Dyfrig Davies, yr is-gadeirydd i fod yn Gadeirydd; Euros Owen yn is-gadeirydd; Esme Jones i barhau yn ysgrifennydd cofnodion ac Arwyn Evans yn Drysorydd. Diolchwyd i Rhiannon Walters oedd yn dymuno gorffen fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli, ac etholwyd y Cynghorydd Eurwyn Williams i'r Bwrdd Rheoli.

Yn dilyn cyflwyniad gan Gwenda Rees ynglyn a sefydlu busnes yng nghefn gwlad Cymru, cafwyd gair gan Cefin Campbell, Prif Weithredwr Mentrau Iaith Myrddin. Llongyfarchodd Menter Bro Dinefwr ar y llwyddianau a phwysleisiodd bwysigrwydd cyd-weithio i wynebu her y dyfodol.

Hoffai'r Fenter ddiolch yn fawr iawn i Mererid am ei chymorth a'i gwasanaeth yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd a dymuno pob llwyddiant i Dyfrig.

**DEWIS**

Dim ond gair byr i'ch hysbysu y bydd Lynwen Davies Cyfieithydd Cymunedol Bro Dinefwr yn gadael dros dro i fynd ar gyfnod mamolaeth ganol Hydref. Yn ei lle bydd Helen Lane yn dod i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i Fro Dinefwr. Gellir cysylltu â hi yn y ffordd arferol, ffôn 01558 825370, e bost lynwen@dewis-sirgar.co.uk. Hoffai'r Fenter ddymuno pob dymuniad da i Lynwen yn ystod y cyfnod a diolch iddi am ei gwaith caled yn ystod ymisoedd diwethaf. Edrychwn ymlaen i'w chroesawi yn ol yn y flwyddyn newydd.

**GERAINT DAVIES**

**CONTRACTWR AMAETHYDDOL**

Amrywiol beiriannau ar gael yn cynnwys
*peiriant twrio ar draciau rwber 5 tunnell*
*Dumper 6 tunnell a Sanderson –*
*addas ar gyfer amrywiol dasgiau*

☎ **(01558) 685252**

### HELEDD STEPHENS

Mae'r tymor rygbi 2003-2004 wedi bod yn ffantastig i mi gan fy mod wedi cael fy newis i chwarae i dîm rygbi merched Cymru dan 19 oed.

Yr wyf o hyd wedi cael diddordeb mewn chwaraeon, ac yn dod o deulu sydd yn rhannu'r diddordeb. Rwyf wedi cymryd rhan mewn tennis, gymnasteg, pêl-rwyd a hoci, a dechreuais chwarae rygbi pan oeddwn yn 12 mlwydd oed yng Nghlwb Rygbi Llandeilo ac yr oeddwn yn cael fy hyfforddi gan Owen Smart. Laura Colley a Wyn Thomas. Yn ddiweddarach ymunais â thîm rygbi Llanelli Wonderers dan 16 oed, ac wedyn cefais fy newis i chwarae i Orllewin Cymru am y tri thymor diwethaf. Fy uchelgais am y flwyddyn yma oedd ymuno gyda'r tîm cenedlaethol dan 16.



Serch hynny, cefais wahoddiad i ymarfer gyda thîm rygbi merched Cymru dan 19 oed, yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Roeddwn yn meddwl fy mod yno am y profiad yn unig gan fy mod ddwy flynedd yn iau na'r gweddill. Chwaraeodd y tîm dan 19 oed yn erbyn yr UDA ym Mehefin, ond nid oeddwn yn chwarae, ond yn fuan cefais lythyr wedi ei gyfeirio ataf fel H M Stephens, mewn amlen oedd â'r logo WRU arno (mae llythyron fel hyn fel arfer yn mynd i'm tad!). Roeddwn yn gyffrous iawn wrth feddwl efallai fy mod wrth gefn i'r tîm gyntaf, felly darllenais y rhes o eilyddion, rhifau 16-22, ac wedi methu gweld fy enw, edrychais ar y tîm a gwelais fy enw yn rhif 11! Roedd dwy ferch arall o ardal Llandeilo yn y tîm hefyd, sef Eirlys Lougher (y capten), a Claire Thomas. Es i mewn i'r lolfa i ddangos y llythyr i'm tad ac fe edrychodd ef yn gyntaf ar y rhes o eilyddion hefyd cyn neidio i'r awyr mewn cyffro.

Roeddwn yn chwarae yn erbyn Canada yng Nghasnewydd. Aeth dad a mi i'r gêm oherwydd nid oeddwn eisiau fy mam i ddod, ond daeth ffrind fy nhad â mam i'r gêm heb yn wybod i mi. Ni wyliodd lawer o'r gêm, yn lle yr oedd yn syllu ar y llawr ac yna yn cau ei llygaid bob tro gefais y bêl, neu pan oeddwn yn taclo! Roedd y mwyafrif yn nhîm Canada yn 19 oed ac yn enfawr hefyd, felly gwnaethom yn dda i golli yn agos iawn iddyn nhw gyda'r sgôr yn 12-10. Cefais gyfle i sgorio yn yr ail hanner, ond cefais fy nhaclo un fedr o'r llinell gais yn anffodus!

Roedd yn brofiad bendigedig i gael chwarae dros fy ngwlad, ac yn grêt i gael chwarae gydag Eirlys a Claire gan ein bod wedi chwarae rygbi gyda'n gilydd dros y blynyddoedd.

**************************************

### EIRLYS LOUGHER

Dechreuais chwarae rygbi i dîm dan 16 oed lleol, a sefydlwyd gan Laura Colley a Laura Jane Loynton, ac fe lwyddais i gael fy newis i gynrhychioli tîm gorllewin Cymru dan 16 oed, yna tîm cenedlaethol Cymru yn yr un gru'p oedran. Fy ngêm gyntaf dros Gymru oedd yn erbyn de ddwyrain Lloegr.

Yn dilyn hyn, cynrychiolais dîm dan 19 oed Cymru am dri tymor, a cefais y fraint o fod yn gapten am ddau o'r tymhorau hyn. Rwyf wedi cynrhychioli tîm A menywod Cymru am ddau dymor, gan gynnwys taith y tîm i'r Alban ond heb os, uchafbwynt fy ngyrfa rygbi oedd ennill fy nghap llawn cyntaf eleni yn erbyn de Affrica yn y Loftus Stadium yn Pretoria.

Bob tro dwi'n gwisgo crys coch Cymru a chynrychioli fyngwlad, mae sialens newydd yn fy wynebu. Ni ellir disgrifio'r balchder, pleser a'r angerdd y teimlaf. Trwy chwarae rygbi dwi wedi gwneud ffrindiau a chael profiad o bethau na fyddwn byth wedi profi oni bai fy mod wedi dechrau chwarae'r gêm.

**trwy law Prosiect Papurau Bro**

### GOLWG OPTIMISTAIDD AM Y TYMOR I DDOD

Mae gan dîm cyntaf y Drovers gapten newydd. Wedi pum tymor llwyddiannus, mae Andrew Jones wedi rhoi'r awenau i'r blaenasgellwr Ceri Davies ar gyfer tymor 2004/5. Daw Ceri o Gaerfyrddin ac mae'n chwaraewr profiadol iawn. Mae yntau a'i frodyr wedi rhoi gwasanaeth arbennig i'r Drovers ers sawl blwyddyn. Fe fydd yn parhau i chwarae gyda'r tîm cyntaf yn ei rôl bwysig yn cryfhau'r sgrym.

Yn ogystal â'r newid capten, mae wynebau newydd yn y tîm hyfforddi y tymor yma hefyd. Mae cyn hyfforddwr Ysgolion Cymru Chris Webber yn mynd i helpu i hyfforddi'r olwyr tra bod Jeff Roach yn cynorthwyo Iestyn Thomas i hyfforddi'r tîm cyntaf. Mae Aled Walters wedi ei apwyntio yn hyfforddwr ffitrwydd, a Mark Vince yn Rheolwr y tîm cyntaf. Dymuna Rheolwyr y clwb yn dda iddynt oll ar gyfer y tymor newydd ac hefyd i Geraint Williams a Carwyn Williams am eu holl waith caled dros y tymhorau diwethaf.

Hanner ffordd drwy'r tymor diwethaf, y gobaith oedd y byddai'r Drovers yn gorffen yn hanner ucha'r tabl, ond yn dilyn nifer o anafiadau a cholli rhai chwaraewyr, bu'n frwydr i osgoi cwympo i'r Adran Gyntaf. Lwcus iawn, oherwydd gyda'r sefyllfa ariannol bresennol, byddai colli lle yn yr Uwch Adran yn ergyd fawr i'r clwb.

O ran aelodau'r tîm mae'r clwb yn siomedig o golli un chwaraewr arbennig i dîm Casnewydd, sef y cefnwr talentog a phrif sgoriwr y llynedd, Ricky Williams. Cafodd ei demtio gyda chynnig na allai ei wrthod. Yn yr un modd, denwyd Neil Clapham i chwarae i Gastell Nedd ac ni ddaeth Steve Phillips nôl fel y disgwyl, gan fynd i Aberafan.

Ar nodyn positif, mae Gareth Morgan o Landeilo sy'n gyn chwaraewr i Ysgolion Cymru wedi arwyddo i'r Drovers. Rhwng hyn ynghyd â'r cymorth Rhanbarthol disgwyliedig ac ymddangosiad Stuart Harries yn y sesiynau hyfforddi, mae agwedd mwy optimistaidd yn y clwb ar gyfer y tymor sydd i ddod.

Mae'r gêmau cyfeillgar a chwaraewyd yn erbyn Aberhonddu a Pertemps Bees (Birmingham-Solihull) yn awgrymu bod tîm y Drovers yn llawn ymroddiad, yr amddiffyn yn gryf a'r blaenwyr yn siwr o greu argraff. Y gobaith nawr yw y bydd y garfan yn cael ei atgyfnerthu yn y tymor nesaf ac y bydd cyfnod llewyrchus iawn o flaen y clwb yn y dyfodol agos.

**gan John Kendrick**
**dan ofal Prosiect Papurau Bro**



## ~ CYDYMDEIMLAD ~

**Cydymdeimlir â theuluoedd y canlynol a fu farw'n ddiweddar:**

Mrs Gwyneth Priestland (gynt Llewelyn), Glascoed, 27 Heol Caerfyrddin, Llandeilo a fu farw ar 6 Awst ar ôl brwydro'n ddewr yn erbyn afiechyd creulon. Priod Jack, mam ofalus, gariadus ac ysbrydoledig i Kate a chwaer annwyl i Janet James a'r teulu, John a Catrin, Dolwerdd, Talyllychau. Bu'r angladd ar 14 Awst gyda gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Llanelli gyda gwasanaeth i ddathlu ei bywyd i ddilyn yn Eglwys y Plwyf Llandeilo pan ddaeth cynulleidfa enfawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf.

Mr Meurig Jones gynt o Preswylfa, Felinwen a bu farw yn Cape Town priod hoff Myra a thad Helen a Jeremy brawd Gwenfron, Brynmor, Lynne a Noeline.

Mr Gwilym Bowen, Y Dolydd, Heol yr Orsaf, Nantgaredig (gynt o Garregwen, Maesybont). Gwr cariadus May a'r diweddar Olive, tad tyner Wendy a Dafydd, Bethan a Peter, Huw ac Anne ac Elis. Llysdad hoffus Delyth ac Allan a Martyn a Jeff, tadcu a hen dadcu annwyl iawn a brawd hoffus Elsie. Bu'r angladd yng Nghapel Penrhiwgoch.

Mrs Iona Lloyd, Aberystwyth a fu farw'n 80 oed. Yn enedigol o Dryslwyn, gweddw ydoedd i'r diweddar Canan D.J Lloyd mam dyner Mary a Martin a chwaer David Tom, Islwyn a Gwyn.

Mr John Eirwyn Williams, Cartref Awel Tywi gynt o 38 Teras Tywi, Ffairfach, brawd Eleanor, Enid, Ieuan a Goronwy. Bu'r angladd yng Nghapel Cefnberach, Maesybont.

Mrs Charlotte Elizabeth Jones, 38 Stryd y Bont, Ffairfach, priod Eric a mam Anne a'i phriod Chris.

Mr Tommy Davies, Tynllwyn Villa, Myddfai priod Eleanor a thad Yvonne a'i theulu, brawd John a'r diweddar Gwyneth ac Evan.

Mrs Ceridwen Tree (Thomas gynt) Gelli Aur a bu farw'n 90 mlwydd oed. Priod y diweddar Barchedig R.J.Tree cyn Warden Coleg Llanymddyfri ac Archddeacon Ty Ddewi.

Mrs Eirwen Mary Walters, Penrock, Llansadwrn priod y diweddar David Howell a mam gariadus Alan ac Alun bu farw'n sydyn ar 21 Gorffennaf.

Mrs Lizzie Evans, gynt o Danyrallt, Crug-y-bar. Priod y diweddar Gwilym, mam gariadus Gwynfor, Betty, Glenwen a Ronald. Bu'r angladd yng Nghapel Providence, Llangadog gyda chladdedigaeth breifat yn Nhabor Llanwrda.

Mrs Aldwyth Clement, Brynhardd, Llandeilo gynt priod y diweddar Emrys a mam Arwyn, Eryl, Gwynfudd ac Eirwen, mamgu a hen-famgu gariadus iawn.

Mr Eddie Edwards, Maes Teg, Llansawel priod Peggy, mam gariadus David a Hywel. Bu'r angladd breifat yng Nghapel Seilo Llansawel.

Mrs Myfanwy John (ger Swindon), chwaer yng nghyfraith Mrs Muriel Morgan, (Llandeilo bellach) a theulu Cilyllyn Fach, Talyllychau a fu farw'n ddiweddar.

Mr John Kenneth Griffiths a fu farw beth amser yn ôl yn ysbyty Glangwili yn 78 oed. Unig fab y diweddar Tomi a Meima Griffiths, Brynbran, Ffarmers. Treuliodd ei fywyd yn ffermio yn Brynbran cyn ymddeol a symud i Ochrbryn. Dyn ei filltir sgwar oedd Ken, yn berson tawel a charedig. Wedi ymgartrefu yn Ochrbryn ymddiddorai mewn magu Cobiau Cymreig ac fe fu yn llewyrchus iawn mewn llawer o sioeau. Cynhaliwyd yr angladd yn Nghapel Bethel, Caio dan ofal ei gyn weinidog y Parch Goronwy Wyn.

Mrs Mary McGregor, Abergwili yn enedigol o Lanfynydd ac yna Dryslwyn, priod y diweddar Ted a mam gariadus Clive a'r diweddar Geoff; mam-yng-nghyfraith, mam-gu a chwaer hoffus.

Mrs Daisy Williams, Brooklands, Nantgaredig a bu farw ar 24 Awst yn 70 mlwydd oed. Gwraig ddiwyd ac addfwyn a ddioddefodd blynyddoedd o wendid iechyd a llesgedd. Priod annwyl Delwyn a chwaer-yng-nghyfraith barchus Trefor. Bu'r angladd yng Nghapel Bethania Brechfa.

## ~ GWELLHAD BUAN ~

**Dymuniadau da am adferiad iechyd i'r canlynol:**

Mr Denzil James, Ael-y-bryn, Cwm-du sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mr Alun Peregrine, Talyllychau, sydd wedi gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mrs Beti Daniels, Gorwydd, Nantgaredig yn gwella yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr.

Sioned Raymond, Erw-wen, Dryslwyn sydd wedi derbyn triniaeth frys yn Ysbyty Treforus.

Mr Emrys Lewis, Dolhyfryd, Nantgaredig sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili.

Mr John Davies, Dan-yr-allt, Llanarthne sydd wedi treulio cyfnod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili.

## ~ CYFARCHION ~

Llongyfarchiadau i Ken a Mair Jones,1 Brynderi, Derwen Fawr ar ddathlu eu Priodas Rhuddem.

Cyfarchion gorau i Gruffydd Jones, Bwlchygaer, Derwen Fawr ar basio arholiadau TGAU ac wrth iddo ddechrau ar y chweched yng Ngholeg Wellington.

Llongyfarchiadau i Mr Edgar Walters "Forest View", 49 Heol Cerrig, Llanymddyfri ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ar 21 Awst.

Llongyfarchiadau i Mr Ifan Davies, Glasfryn, Capel Dewi gynt o Fferm Goitre, Llanfynydd ar gael ei dderbyn i Wisg Werdd yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd – hyn am ei gyfraniad gwerthfawr i adloniant Cymraeg fel digrifwr ac am ei waith dros achosion dyngarol yn lleol.

Llongyfarchiadau i Rufus a Jean Rees, Glancothi, Talyllychau ar ddathlu eu Priodas Aur.

Dymuniadau gorau i Daniel Davies, Llys Helen, Ffarmers sydd wedi derbyn swydd gyda Burrows fel cynllunydd yn Ford, Dunton yn Swydd Essex. Mae eisioes wedi cychwyn gyda'r swydd, ac yn mwynhau y gwaith.

Llongyfarchiadau i Lewis Jenkins, Llys Awel, Ffarmers ar ennill yr adran rhanbarthol yng Nghystadleuaeth Prentisiaeth Blwyddyn 1 Cymru 2004 ym Mheirianyddiaeth. Yn dilyn ei lwyddiant yn Rhanbarth De Orllewin Cymru, bydd Lewis yn cynrychioli'r rhanbarth yn y rownd derfynol i ddewis enillydd dros Gymru. Da iawn, a phob hwyl yn y gystadleuaeth ar ddiwedd mis Medi. Mae Lewis yn astudio yng Ngholeg Sir Gâr, Llanelli.

Llongyfarchiadau i Ian O'Connor, Buarth yr oen, Ffarmers. Roedd Ian yn ddisgybl yn Nholeg Sir Gâr, Gelli Aur yn astudio amaethyddiaeth, ac ef oedd ennillydd y wobr am yr *"Integrated Vocational Assignment"* gorau yn ei flwyddyn. Dewisodd fel testun adeiladau addas ar gyfer anifeiliaid fferm, ac mae'n amlwg iddo wneud argraff fawr gyda'i gyflwyniad.

Llongyfarchiadau i Jeremy a Dawn, Felin Rhosybedw, Ffaldybrenin ar ennill y wobr gyntaf am y Stondin orau (ag eithrio amaethyddol) yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd

Llongyfarchiadau i Haydn ac Eira Jones, Rose Cottage, Llanfynydd ar ddathlu eu priodas arian ar 11 Awst.

Llongyfarchiadau i Alf ac Eirwen Golding, Maesteg, 4 Llys-y-Frenin, Pontargothi ar ddathlu eu priodas aur ar 7 Awst.



Mae Miss Elin Thomas, Cilyllyn Fawr, Talyllychau, newydd dderbyn gradd B.Sc mewn Cyfrifeg o Brifysgol Caerdydd. Cafodd ei haddysg gynnar yn Ysgol Gynradd Talyllychau ac yn Ysgol Gyfun Tregib, Llandeilo. Bwriada ddilyn cwrs Ôl-Radd i hyfforddi i fod yn athrawes Fathemateg.



Newydd raddio o Brifysgol Cymru Aberystwyth mae Ruth Hughes, Llwynmendy, Bethlehem, gyda gradd B.Sc (2:1 Anrh) mewn Cyfrifeg a Chyllid. Cafodd ei haddysgu yn Ysgol Gynradd Bethlehem ac Ysgol Gyfun Tregib, Llandeilo. Fe fydd yn cychwyn ar ei swydd fel Cyfrifydd Siartedig ACA.



Gobeithia Miss Sara Evans, Nant-y-Felin, Llanwrda, ddilyn gyrfa fel athrawes, gan ei bod newydd dderbyn Tystysgrif Addysg (Uwchradd) Ôl-Radd mewn Daearyddiaeth, o Brifysgol Abertawe. Mae'n gynddisgybl o Ysgol Uwchradd Pantycelyn, Llanymddyfri.



Carys Angharad Dyer, Caerhyn, Llangadog, sydd newydd dderbyn gradd Ll.B. (2:1Anrh) yn y Gyfraith, o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Llangadog ac Ysgol Uwchradd Pantycelyn, Llanymddyfri. Fe fydd yn cychwyn ar ei gyrfa gyda LPC yng Nghaerdydd.


CYNLLUNIAU

*Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau*

MARTIN WATTS

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr

Ffôn: Llangadog (01550) 777591


Llongyfarchiadau i Elin Humphreys, merch Eirwyn a Meira Humphreys, Crachty Uchaf, Llanfynydd a Jason Bishop, mab Eric ac Avril Bishop, Heol y Garreg Las, Llandeilo a briododd yng Nghapel Annibynnol Capel Isaac yn ddiweddar. Mae Elin hefyd yn aelod o Fwrdd Golygyddol *Y Lloffwr*. Pob dymuniad da i'r pâr hapus.



**Bant i Barcelona!**



Dymuniadau gorau i Richard Davies mab Gwyn a Beryl Davies, Gyrrey Hill, Nantrhibo sydd wedi symud gyda'i briod Vicky a'r plant Adam ac Abigail i fyw i Barcelona. Bydd Richard yn gweithio yno am gyfnod o dair blynedd gyda chwmni Sony fel Rheolwr Cyllid Ewropeaidd. Mae e'n gyn-ddisgybl o Ysgol Teilo Sant, Llandeilo, Ysgol Gyfun Tre-gib a Phrifysgol Morgannwg.

**MANYLION CYSYLLTU**

**Menter Bro Dinefwr**

Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant

Llandeilo, SA19 6HW

☎ **(01558) 825336** 🖷 (01558) 825339

✉ **menter@sirgar.gov.uk**

🖳 www.mentrau-iaith.com/dinefwr



**Gwyneth Priestland 1938 – 2004**



Magwyd Gwyneth, a'i chwaer Janet, yn Nôl-werdd, Talyllychau yn blant i Mr a Mrs Parry Reynolds - lle ac ardal a thras yr ymfalchiai ynddynt. Wedi addysg yn Ysgol Ramadeg Llandeilo a cholegau Abertawe a Bangor cychwynnodd ar ei gyrfa fel athrawes yn Harrow, Llundain. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n aelod amlwg o Gymry Llundain, yr un cyfnod â Rhydderch Jones, Ryan Davies a Hafina Clwyd. Yna daeth yn ôl i ddysgu yn Abertawe a phriodi Richard Llewellyn. Ganwyd iddynt un ferch, Kate.

Dyna'r ffeithiau moel. Ond roedd cymaint mwy i Gwyneth - dawn gerddorol, hoffter o gymdeithasu a chroeso i bob oed bob amser ar ei haelwyd. Gallai lanw ystafell â'i phresenoldeb. Wedi peth amser yn Llandeilo penderfynodd fynd yn athrawes fro yn yr ardal gan godi i fod yn Gadeirydd Athrawon Bro Cymru. Pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â 'r ardal yn 1996 hi oedd ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith a gwnaeth ei gwaith gyda'r hynawsedd a'r trylwyredd arferol.

Er bod ei bywyd yn llawn - roedd yn ysgrifenyddes *ARC*, a chyngor plwyf yr eglwys, un o aelodau cyntaf yr *Inner Wheel*, ac yn aelod o Gylch Llên Llandeilo, deuai o hyd i amser i annerch amryw gymdeithasau a chyfrannu'n gyson at y papur hwn. Wrth gwrs, wedi marw Richard ac ail-briodi â Jack cafodd lond tŷ o hwyl yng ngwmni ei blant yntau a'r wyrion ac yn cefnogi Kate ym mhopeth a wnai.

Bu'r clefyd creulon y bu'n dioddef ohono yn 'garchar caeth' iddi fel y tystiodd ei gweinidog yn y cyfarfod coffa a gynhaliwyd ar 6 Awst yn Eglwys Llandeilo pan ddaeth tyrfa fawr ynghyd i roi diolch am ei bywyd. Coffa da amdani.

Ei hafiaeth oedd yn llafar – yn ei gwisg
Ac yn ei gwên hawddgar
Wrth estyn llaw groesawgar
Cyfaill triw, a'i byw a bâr.

***Eleri Davies***

*******************************************************

*Fel cyfrannydd cyson i'r Lloffwr, roedd Gwyneth wedi ysgrifennu erthygl i'r papur bro cyn ei marwolaeth ar gyfer y mis hwn ac fel rhan o'i choffâd cyhoeddwn yr erthygl.*

**Mae Hiraeth yn y Môr a'r Mynydd Maith...**

Hen hanes erbyn hyn, ond bu'r papurau dyddiol y mis diwetha yn orlawn o hanes am y '*Normandy Landings*', a'r holl golled bywyd a fu yn sgil brwydrau'r Ail Ryfel Byd. Darllennais erthygl mewn un papur am y cerddor enwog Syr David Wilkocks â'i lygaid yn llaith â'i wyneb yn welw wrth iddo edrych ar y rhesi ar ben rhesi o gerrig beddau yn Normandi yn cofio ac yn galaru am ei ffrindiau a gollwyd yn y gyflafan! Dyna wastraff!

Aeth fy meddwl nôl ymhellach i'r Rhyfel Byd Cyntaf a chofio hufen yr ifanc a gollwyd yno hefyd. Un o'r darnau o farddoniaeth roedd fy Mam yn arfer adrodd oedd darn o'r enw "We are seven". Roedd hi yn un o saith o blant. Bu pedwar farw yn ifanc iawn - clefydau plentyndod bryd hynny cyn dyfodiad antibiotig, a mae'r pedwar hynny wedi eu claddu ym mynwent Talyllychau. Hi a dau o frodyr oedd ar ôl, sef Tom a Jack ac yn deulu agos iawn. Bechgyn peniog iawn roedd y rhain a'r ddau gyntaf o'r ardal i fynd i ffwrdd i'r Brifysgol! Aeth Tom i Brifysgol Glasgow i astudio Diwinyddiaeth a Jack i ffwrdd i astudio Saesneg. Graddiodd Tom ond cyn i Jack orffen ei gwrs fe alwyd y ddau i ymladd dros eu gwlad. Ni ddaeth yr un ohonynt adre!

Yn ystod wythnos y 'Dathlu' yn Normandi (os y gallwn ei alw yn ddathlu) roedd Jack fy ngŵr a finne i ffwrdd yn Iwerddon am ychydig ddyddiau. Daeth neges testun oddi wrth Kate, fy merch ar y ffôn symudol (dyna sut mae hi â finne'n cyfathrebu fwyaf ar y funud - naill a'i hynny neu e-bost - gan fod siarad yn anodd i mi - ie - fi o bawb!). Roedd hi a'i chariad wedi mynd i'r *Imperial War Museum* yn Llundain. Yn y neges roedd yn holi beth oedd cyfenw ei mam-gu. Evans, atebais.

Ar ôl clywed hynny fe fu'r ddau yn chwilio gwefan Comisiwn y Beddau Rhyfel i geisio darganfod manylion y ddau wncwl. Ac yn wir i chi, mae eu henwau yno hefyd ar gof a chadw! Ar ôl cyrraedd adre fe fues inne'n chwilio'r wefan a darganfod bod Tom wedi marw fel carcharor rhyfel ond bum mis cyn y cadoediad yn 29 mlwydd oed. A'r llall, Jack, bengoch yn 23 mlwydd. Mae ei enw ar gofeb enfawr Thiepval gyda 72,000 arall sydd ar goll yng nghorsydd y Somme. Gwelir hefyd enwau'r ddau ar y gofeb tu allan i ddrws Eglwys Talyllychau ac ar y bedd teuluol. "Yn anghof ni chant fod". Ac felly bu hi ar lawer teulu - bu cannoedd y mis diwethaf yn cofio ac yn galaru ar ôl eu hanwyliaid. Dim ond un gair sydd gennyf iddynt, a hynny yw DIOLCH.

~


CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN



**Y LLOFFWR**

DYDDIADAU CYHOEDDI 2004

| Rhifyn | Dyddiad |
|---|---|
| Tachwedd | 29/10/2004 |
| Rhagfyr | 02/12/2004 |

Rhaid i'r deunydd ar gyfer pob rhifyn fod yn nwylo'r Uwch Olygydd neu yn swyddfa'r Fenter erbyn yr 20fed o'r mis blaenorol. Bydd unrhyw ddeunydd a ddaw i law wedi hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y rhifyn dilynol.